

# Adolygiad o'r camau i roi argymhellion adroddiad y Comisiwn ar waith

## 21 Rhagfyr 2015

---

Comisiwn Cwmnïau Cydweithredol  
a Chydfuddiannol Cymru

---

Welsh Co-operative  
and Mutuals Commission



<b>Rhagair</b>	<b>2</b>
<b>Crynodeb gweithredol</b>	<b>3</b>
<b>1. Cyflwyniad a diben yr Adolygiad</b>	<b>7</b>
<b>2. Prif elfennau Adroddiad Comisiwn Cwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol Cymru</b>	<b>8</b>
<b>3. Datblygiadau pwysig ers cyhoeddi'r adroddiad</b>	<b>10</b>
3.1. Y Papur Gwyn "Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol"	10
3.2. Rhaglenni Cyllid Ewropeaidd 2014-2020	12
3.3. Cyhoeddi "Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru"	13
3.4. Astudiaeth ddichonoldeb ynghylch creu Banc Datblygu i Gymru	14
3.5. "Ai Cydfuddiannaeth yw'r Ffordd Ymlaen? Ffyrdd Newydd o Gynllunio a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru"	14
3.6. Prosiect cymorth busnes arbenigol Busnes Cymdeithasol Cymru	16
<b>4. Argymhellion y Comisiwn – Crynodeb o'r sefyllfa bresennol a'r amcanion at y dyfodol</b>	<b>17</b>
4.1. Addysg ar gyfer cydweithredu	17
4.2. Cyngor, cymorth a datblygu cwmnïau cydweithredol	18
4.3. Cyllid buddsoddi	19
4.4. Tir ac asedau	20
4.5. Caffael	21
4.6. Gwybodaeth ac arloesi	23
4.7. Rhwydweithiau ac eiriolaeth	23
4.8. Cyflawni a meincnodau	24
<b>5. Gweithgareddau eraill gan Lywodraeth Cymru</b>	<b>25</b>
<b>6. Opsiynau i sicrhau bod yr argymhellion yn cael eu cyflawni a'u rhoi ar waith yn barhaus / yn y dyfodol</b>	<b>27</b>
<b>7. Casgliad</b>	<b>29</b>

## Rhagair


---

Gofynnodd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth i Gomisiwn Cwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol Cymru ailgynnull i ystyried y camau a gymerwyd i roi argymhellion yr adroddiad ar waith. Yn yr adroddiad gwreiddiol, dywedodd y Comisiwn fod Cymru, lle ganwyd Robert Owen, un o sylfaenwyr y mudiad cydweithredol, wedi cyfrannu'n sylweddol at ddatblygu'r ddelfryd sy'n gysylltiedig â chwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol a'i bod yn parhau i wneud hynny. Roedd y Comisiwn yn credu bod cyfle i Gymru ailystyried llawer o'r cwestiynau ynghylch sut yr ydym yn trefnu ein bywyd a chyfrannu i'r ddadl ehangach am y dyfodol – yng Nghymru a thu hwnt. Roeddem hefyd yn gobeithio y byddai ein hadroddiad *“nid yn unig yn cyfrannu i'r ddadl ehangach honno ond hefyd yn cynnig cymorth ymarferol i ddatblygu'r weledigaeth honno”*.

Roedd aelodau'r Comisiwn yn falch o weld bod ein hadroddiad wedi cael croeso cynnes iawn. Roeddem yn arbennig o falch bod Gweinidogion Cymru wedi derbyn argymhellion yr adroddiad yn gyflym iawn a mynd ati i'w rhoi ar waith ym mhollisiau, deddfwriaeth a chanllawiau Llywodraeth Cymru. Roedd hyn i'w weld, er enghraifft, pan fu i Weinidogion Cymru gomisiynu adroddiad Keith Edwards, *“Ai Cydfuddiannaeth yw'r Ffordd Ymlaen?”*, ynghylch y posibilrwydd o ddefnyddio modelau cydfuddiannol i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Roedd aelodau'r Comisiwn yn sylweddoli ein bod yn cynnal ein hadolygiad 12 – 18 mis yn unig ar ôl cyhoeddi'r adroddiad gwreiddiol ac y gallai fod yn rhy gynnar i weld cynnydd sylweddol ym mhob maes. Serch hynny, roeddem hefyd yn falch o weld bod y mudiad cydweithredol a chydfuddiannol yn ymateb yn gadarnhaol i argymhellion ein hadroddiad, er ein bod yn sylweddoli bod capasiti'r sector i ymateb yn gyflym i newid yn gallu bod yn gyfyngedig. Roeddem yn gobeithio y byddai argymhellion ein hadroddiad yn helpu i adeiladu mwy o gydnerthedd.

Yn yr un modd â llawer o feysydd polisi eraill yng Nghymru, fodd bynnag, yr her fydd rhoi dyheadau polisi a deddfwriaethol uchelgeisiol, lefel uchel Llywodraeth Cymru ar waith 'ar lawr gwlad'. Mae cyfle gwych i gyrff cyhoeddus fel awdurdodau lleol a byrddau iechyd ddefnyddio'r model cydfuddiannol i ddarparu gwasanaethau gwell sy'n fwy hyblyg ac sy'n canolbwyntio ar y dinesydd mewn ffordd fwy effeithlon, yn enwedig ar adeg o gyni. Byddem yn colli cyfle euraid pe na bai'r gyrff cyhoeddus hyn yn ymateb yn greadigol ac yn ddynamig. Fel y dywedir yng nghasgliad ein hadroddiad gwreiddiol, i wireddu'r weledigaeth hon, *“bydd yn hollbwysig bod Llywodraeth Cymru a'r sector yn parhau i gydweithio i gyflawni canlyniadau ymarferol a gweladwy wrth drawsnewid gwasanaethau cyhoeddus a datblygu economi Cymru. Dim ond drwy gydweithio a sicrhau bod gwerthoedd cydweithredol a chydfuddiannol yn ennill eu plwyf y bydd modd i Gymru ddod yn 'genedl gydweithredol' yng ngwir ystyr y term.”*



### Yr Athro Andrew Davies

Cadeirydd Comisiwn Cwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol Cymru

## Crynodeb gweithredol

---

Cyhoeddwyd adroddiad Comisiwn Cwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol Cymru ym mis Chwefror 2014. Cyhoeddodd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ym mis Hydref 2014 y byddai'r Comisiwn yn cael ei ailgynnull *"i adolygu'r camau sydd wedi'u cymryd i roi ei argymhellion ar waith"*.

Cyfarfu'r Comisiwn ar 27 Chwefror 2015 a chytunodd mai diben yr adolygiad oedd:

- ystyried yr ymatebion cychwynnol a'r camau a gymerwyd (gan Lywodraeth Cymru a'r sector cydweithredol) i sicrhau bod yr argymhellion yn cael eu rhoi ar waith.

Mae'n ymddangos mai'r ddau ddatblygiad pwysicaf o ran gwaith y Comisiwn (ers cyhoeddi ei adroddiad yn 2014) yw'r Papur Gwyn, "Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol" (y cyfeiriwyd ato yn Natganiad Ysgrifenedig Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ynghylch ailgynnull y Comisiwn), ynghyd â'r adolygiad a gyflawnwyd gan Keith Edwards o'r modd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu darparu yn y dyfodol, "Ai Cydfuddiannaeth yw'r Ffordd Ymlaen? Ffyrdd Newydd o Gynllunio a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru". Bu'r adolygiad hwnnw'n pwysu a mesur rôl bosibl modelau cydweithredol a chydfuddiannol ym maes darparu gwasanaethau cyhoeddus. Fe'i cwblhawyd ar y cyd â'r adolygiad hwn, gyda chanlyniadau cyfatebol priodol yn dod i'r amlwg mewn meysydd o ddiddordeb cyffredin, ac ochr yn ochr â'r gwaith o gynllunio a gweithredu'r Rhaglenni Cyllid Ewropeaidd yng Nghymru.

## Trosolwg ar y cynnydd a wnaed

---

### Addysg ar gyfer cydweithredu

---

Mae'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer cyfansoddiad cyrff llywodraethu ysgolion yng Nghymru wrthi'n cael ei adolygu gyda golwg ar ganiatáu mwy o hyblygrwydd i sicrhau bod modd sefydlu cyrff llywodraethu ar sail egwyddorion cydweithredol. Mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau wedi derbyn yn llwyr yr argymhellion a wnaed gan yr Athro Donaldson yn sgil ei adolygiad o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru, "Dyfodol Llwyddiannus".

### Cyngor, cymorth a datblygu cwmnïau cydweithredol

---

Mae Llywodraeth Cymru wedi lansio adnodd cymorth busnes newydd pwysig, sef Busnes Cymdeithasol Cymru. Mae Llywodraeth Cymru'n darparu arian cyfatebol ar gyfer y prosiect ERDF gwerth £11m sy'n cael ei arwain gan Ganolfan Cydweithredol Cymru. Bydd Busnes Cymdeithasol Cymru'n gweithredu fel rhan o wasanaeth ehangach Busnes Cymru sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru a'r UE. Bydd gwasanaeth Busnes Cymdeithasol Cymru'n darparu cymorth arbenigol i gwmnïau cydweithredol, cwmnïau cydfuddiannol, mentrau cymdeithasol a busnesau sy'n eiddo i'r gweithwyr sy'n awyddus i dyfu. Bydd hefyd yn cynorthwyo elusennau i sefydlu canghennau masnachol i roi syniadau masnachol ar waith. Mae Llywodraeth Cymru a Chanolfan Cydweithredol Cymru wedi creu ardal benodol ar wefan Busnes Cymru [busnes.cymru.gov.uk](http://busnes.cymru.gov.uk) i'r rheini sy'n ystyried dechrau neu weithredu busnes cymdeithasol. Ymhlith yr adnoddau sydd ar gael ar dudalennau Busnes Cymdeithasol Cymru mae cyngor, astudiaethau achos a gwybodaeth am ddigwyddiadau.

## Cyllid buddsoddi

---

Mae Cronfa Olyniaeth Rheoli wrthi'n cael ei datblygu a bydd busnesau sy'n eiddo i'r gweithwyr ymhlith ei chleientiaid. Mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) eisoes wedi sefydlu Cronfa Buddsoddi Cymunedol – ac mae'n ymddangos bod cyfle i greu cronfa ehangach i ateb gofynion ystod ehangach o gwmnïau cydweithredol, cwmnïau cydfuddiannol a mentrau cymdeithasol. Gwnaeth yr 'Adolygiad Parod i Fenthyca' gyfres o argymhellion ac mae camau eisoes yn cael eu cymryd i'w rhoi ar waith, gan gynnwys i'r graddau y maent yn berthnasol i wasanaeth Busnes Cymdeithasol Cymru, i sicrhau bod busnesau, gan gynnwys cwmnïau cydweithredol, cwmnïau cydfuddiannol a mentrau cymdeithasol, yn 'barod i fenthyca' ac yn gallu cael gafael ar y cyllid sydd ei angen arnynt i dyfu.

## Tir ac asedau

---

Mae cwmpas y materion sy'n gysylltiedig â'r argymhelliad hwn ac asedau'n gyffredinol yn eang ac maent yn effeithio ar ystod yr un mor eang o swyddogaethau adrannau Llywodraeth Cymru. Yn sgil yr argymhelliad, sefydlwyd Gweithgor Llywodraeth Cymru ar Asedau Cymunedol er mwyn cydweithio'n well ar draws meysydd portffolio'r Gweinidogion. Fel rhan o'i waith, mae'r Gweithgor wedi paratoi canllawiau cyffredinol ar gyfer cymunedau a chanllawiau penodol ynghylch gwasanaethau hamdden. Bydd y Gweithgor yn ystyried nifer o feysydd ac yna bydd yn llunio camau gweithredu perthnasol a'u rhoi ar waith.

## Caffael

---

Cafodd Grŵp Llywio ei sefydlu sy'n cynnwys ystod eang o aelodau o'r meysydd prynu a chyflenwi i oruchwylio'r prosiectau arddangos ac i sicrhau'r gwerth mwyaf ohonynt; i lunio cynllun gweithredu; i fanteisio ar ddarpariaethau newydd rheolau caffael diwygiedig yr Undeb Ewropeaidd (UE); ac i bwysu a mesur sut i ddefnyddio canlyniadau'r ymchwil i fapio economi gymdeithasol Cymru i ddatblygu'r gadwyn gyflenwi gydweithredol a chydfuddiannol ymhellach.

## Gwybodaeth ac arloesi

---

Mae Cangen Arloesi Llywodraeth Cymru, Canolfan Cydweithredol Cymru, Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru a Chwmnïau Cymdeithasol Cymru wedi meithrin cysylltiadau er mwyn trin a thrafod ffyrdd o sicrhau bod modd i sefydliadau'r trydydd sector chwarae rhan lawn mewn ymyriadau sy'n cefnogi arloesi a sbarduno camau cychwynnol.

## Rhwydweithiau ac eiriolaeth

---

Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i gefnogi camau i ddatblygu "Cynghraiir Cwmnïau Cydfuddiannol" ac mae sefydliadau cydweithredol a chydfuddiannol blaenllaw wedi bod yn rhan o'r trafodaethau am ei chylch gwaith. Bydd Canolfan Cydweithredol Cymru'n lletya'r Gynghraiir Cwmnïau Cydfuddiannol a bydd hefyd yn hwyluso gwaith mewn meysydd sy'n gysylltiedig ag ymchwil, llunio polisiau, arwain y sector, rhwydweithio a chodi ymwybyddiaeth o gwmnïau cydfuddiannol a'u manteision ymhlith rhanddeiliaid allweddol, y cyhoedd a'r Llywodraeth. Er bod un argymhelliad yn ymwneud yn bennaf

â deddfwriaeth, roedd ymatebion Llywodraeth Cymru hefyd yn cyfeirio'n gyffredinol at ddimensiynau ymarferol ehangach o ran gwasanaethau cyhoeddus a thrafnidiaeth. Yn fwy penodol o ran lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol – yn enwedig o ran Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – nodwyd bod ystod gynhwysfawr o gamau arfaethedig ar gael. Yn yr un modd, tynnwyd sylw at amrywiaeth eang o fentrau strategol ac ymarferol ym maes Tai a Chyfoeth Naturiol.

## Cyflawni a meincnodi

---

Bu i Lywodraeth Cymru gomisiynu Canolfan Cydweithredol Cymru i gasglu mwy o wybodaeth drwy gynnal ymarfer i fapio'r sector. Lanswyd yr adroddiad, "Busnesau Cymdeithasol yng Nghymru: Cyflwr y Sector", ym mis Mehefin 2015.

**Yn gryno**, er mai dim ond deunaw mis sydd wedi mynd heibio ers cyhoeddi adroddiad y Comisiwn, canfu ein hadolygiad fod cynnydd amlwg wedi'i wneud i sicrhau bod elfennau sy'n gysylltiedig â datblygu cwmnïau cydweithredol, cwmnïau cydfuddiannol a mentrau cymdeithasol yn rhan annatod o'r gwaith hirdymor ym maes deddfwriaeth, polisiâu a gweithredu. Roedd yn arbennig o galonogol bod adroddiad y Comisiwn wedi cael cymeradwyaeth mor frwd gan Weinidogion Cymru a'u bod wedi mynd ati i roi ei argymhellion ar waith mor gyflym. Serch hynny, bydd angen iddynt barhau i ymrwymo i'r gwaith i sicrhau bod effaith ymarferol prosesau o'r fath yn cael ei gwireddu'n llwyr. Cafodd rhai camau eu cymryd yn syth ar ôl cyhoeddi adroddiad y Comisiwn, er enghraifft creu adnodd sylweddol Busnes Cymdeithasol Cymru fel rhan o fframwaith cymorth cyffredinol Busnes Cymru.

Mae pob clwstwr o argymhellion yn yr adroddiad a'r gweithgareddau sy'n gysylltiedig â nhw'n cydberthyn i'w gilydd, yn adeiladu ar ei gilydd ac yn ategu ei gilydd. Felly, i gael cymaint o fudd â phosibl o'r prosesau a'r camau gweithredu hynny ac i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl, un o brif ystyriaethau'r cyfnod nesaf fydd y modd y mae'r holl elfennau byrdymor a hirdymor yn cael eu cydblethu o fewn fframwaith datblygu a chyflawni cyfannol.

Yn ôl yr arfer, mae'r modd y mae'r argymhellion yn cael eu rhoi ar waith yr un mor bwysig â'r camau sy'n cael eu cymryd. O roi rhannau o'r argymhellion unigol ar waith, bydd modd cyflawni rhai canlyniadau. Y cwestiwn pwysicaf o hyd, fodd bynnag, yw sut i gyflawni'r 'newid sylweddol' a ragwelir yn yr adroddiad.

Mae adroddiad y Comisiwn yn pwysleisio rôl Llywodraeth Cymru, cyrff cyhoeddus eraill a'r cwmnïau cydweithredol, y cwmnïau cydfuddiannol a'r sefydliadau perthnasol eu hunain (y cyfeirir atynt fel 'y sector') o ran sicrhau bod yr argymhellion yn cael eu rhoi ar waith. Mae angen i sawl un o swyddogaethau Llywodraeth Cymru gyfrannu at y broses, fel y nodir yn yr argymhellion a'r ymatebion i'r adolygiad hwn. O ran y sector, mae Canolfan Cydweithredol Cymru wedi dechrau ar broses o gynnwys unigolion allweddol sy'n ysbrydoli o sefydliadau cydweithredol a chydfuddiannol blaenllaw yng Nghymru mewn ffordd newydd i ddatblygu rôl llawer ehangach a mwy rhagweithiol i'r sector ei hun o fewn 'seilwaith ategol'. Y nod fydd gosod sylfaen bendant i ehangu rôl a chynyddu ymgysylltiad y sector yn sylweddol drwy gyfrwng "Cynghraiir Cwmnïau Cydfuddiannol".

Ond bydd angen i'r broses gyfan o sicrhau bod yr argymhellion yn cael eu rhoi ar waith wneud mwy na dim ond egluro rôl y sector a rôl Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill. Fel yr awgrymir yn adroddiad y Comisiwn, mae angen cyflawni'r

broses hon “*mewn ffordd wahanol*”. I sicrhau ei fod mor effeithiol â phosibl, bydd angen i’r fframwaith gweithredu gyfuno gwahanol gryfderau ac asedau’r sector a Llywodraeth Cymru mewn model integredig. Bydd hyn yn sicrhau bod modd cydweithio mewn ffordd integredig i gynllunio, sbarduno, meincnodi, cyflawni, monitro ac adolygu’r cynnydd cyffredinol.

O ran casgliad cyffredinol yr adolygiad hwn, mae’n amlwg bod cynnydd wedi’i wneud i roi llawer o argymhellion adroddiad y Comisiwn ar waith. Hefyd, mae materion sy’n gysylltiedig â modelau cydweithredol a chydfuddiannol yn dechrau ymddangos yn rhai o’r prosesau cynllunio mwy hirdymor sy’n gysylltiedig â’r argymhellion, er enghraifft o ran rhoi deddfwriaeth neu strategaethau newydd ar waith. Mae ymrwymiad lefel uchel ymhlith Gweinidogion Llywodraeth Cymru i ddatblygu potensial cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol yng Nghymru. Er gwaethaf canfyddiad cynnar y gallai’r sector cydweithredol a chydfuddiannol ei hun wneud mwy i ymateb i’r heriau a bennwyd gan y Comisiwn, ceir arwyddion clir bod rhai o unigolion a chyrrff allweddol y sector bellach yn mynd ati ar y cyd i ysgwyddo mwy a mwy o gyfrifoldeb dros ymyrryd a chyflawni.

Fodd bynnag, nid yw’r ffactorau hyn, ar eu pennau eu hunain, yn debygol o sicrhau’r ‘newid sylweddol’ a amlinellir yn adroddiad y Comisiwn. Fel y nodwyd, mae pob clwstwr o argymhellion yn yr adroddiad a’r gweithgareddau sy’n gysylltiedig â nhw’n cydberthyn i’w gilydd, yn adeiladu ar ei gilydd ac yn ategu ei gilydd. Felly, i gael cymaint o fudd â phosibl o’r prosesau a’r camau gweithredu hynny ac i sicrhau’r canlyniadau gorau posibl, un o brif ystyriaethau’r cyfnod nesaf fydd y modd y mae’r holl elfennau byrdymor a hirdymor yn cael eu cydblethu o fewn fframwaith datblygu a chyflawni cyfannol.

Mae’n ymddangos bod angen hybu mwy a mwy o ymgysylltiad a pherchnogaeth ar draws adrannau a swyddogaethau Llywodraeth Cymru, ar bob lefel, er mwyn gwneud y gorau o’r posibilrwydd o ddefnyddio modelau cydweithredol a chydfuddiannol i wireddu uchelgeisiau Llywodraeth Cymru, yn ogystal ag adeiladu ar y cyfleoedd sy’n dod i’r amlwg yn sgil y newidiadau i’r gwasanaethau cyhoeddus. Bydd angen i’r sector ddatblygu ei gapasiti’n llawn er mwyn cyfrannu at y gwaith o hybu gweledigaeth y Comisiwn a Llywodraeth Cymru. Ond, i wireddu’r weledigaeth hon, bydd yn hollbwysig bod y naill ochr a’r llall (Llywodraeth Cymru a’r sector) yn cydweithio o fewn fframwaith cydnabyddedig ffurfiol i baratoi cynllun gweithredu cyffredinol ac i gyflawni canlyniadau ymarferol. Bydd angen sicrhau bod cysylltiad agos rhwng y fframwaith hwn a’r broses drawsnewid i greu dulliau mwy a mwy cydweithredol a chydfuddiannol o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.



## 1. Cyflwyniad a diben yr Adolygiad

---

Ym mis Gorffennaf 2012, cyhoeddodd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ei bod yn sefydlu Comisiwn Cwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol Cymru i wneud argymhellion ynghylch sut i ddatblygu potensial economi gydweithredol a chydfuddiannol Cymru. Roedd cylch gwaith y Comisiwn yn gofyn iddo:

- Ystyried y dystiolaeth dros gefnogi'r sector cydweithredol a chydfuddiannol yng Nghymru;
- Ystyried cyngor busnes cyfredol ar gyfer y sector cydweithredol a chydfuddiannol a darparu awgrymiadau ynghylch ffyrdd o'i gryfhau;
- Clustnodi meysydd penodol y gellid eu targedu ar gyfer cefnogaeth ychwanegol gan Lywodraeth Cymru;
- Ystyried yr arfer orau a'r gwerthusiadau sydd ar gael;
- Gosod gweledigaeth ar gyfer economi gydweithredol a chydfuddiannol Cymru;
- Clustnodi a sefydlu meincnodau;
- Darparu awgrymiadau ynghylch cyfeiriad strategol ac argymhellion ymarferol ar gyfer cyflawni'r weledigaeth.

Cafodd y Comisiwn, o dan gadeiryddiaeth yr Athro Andrew Davies, dystiolaeth gan ystod eang o sefydliadau ac unigolion o Gymru, o'r DU ac o wledydd eraill. Cafodd gwaith y grŵp ei ategu gan Grŵp Cyngori o'r sector o dan gadeiryddiaeth Prif Weithredwr Canolfan Cydweithredol Cymru.

Cyhoeddwyd adroddiad y Comisiwn, a oedd yn cynnwys nifer o argymhellion, ym mis Chwefror 2014. Trefnwyd sawl digwyddiad ymgynghori ledled Cymru ar ôl cyhoeddi'r adroddiad.

Gwnaeth Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ddatganiad i'r Cynulliad Cenedlaethol ym mis Hydref 2014 yn cyhoeddi y byddai'n ailgynnwll y Comisiwn i adolygu'r cynnydd a wnaed o ran rhoi ei argymhellion ar waith. Cyhoeddwyd datganiad ysgrifenedig gan y Gweinidog ym mis Chwefror 2015 yn cadarnhau ei bod wedi ailbenodi pump o saith aelod gwreiddiol y Comisiwn.

Mae'r adolygiad hwn yn cynnwys:

- braslun o brif elfennau adroddiad gwreiddiol Comisiwn Cwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol Cymru;
- crynodeb o sawl datblygiad pwysig ers cyhoeddi'r adroddiad.

Yn ei datganiad ym mis Hydref 2014, dywedodd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ei bod wedi comisiynu adroddiad ychwanegol ar y cyd â'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus a fyddai'n adeiladu ar waith Comisiwn Cwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol Cymru a'r themâu a amlinellwyd yn y Papur Gwyn, "Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol". Gofynnwyd i'r adroddiad ychwanegol hwn, "Ai Cydfuddiannaeth yw'r Ffordd Ymlaen? Ffyrdd Newydd o Gynllunio a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru", "edrych ar sut y gallwn gefnogi awdurdodau lleol sy'n dymuno datblygu modelau cydweithredol a chydfuddiannol er mwyn cyflenwi gwasanaethau mewn meysydd penodol"<sup>1</sup>.

---

1 Datganiad Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru 24 Chwefror 2015 Comisiwn Cwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol Cymru

## 2. Prif elfennau Adroddiad Comisiwn Cwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol Cymru

Yn adroddiad y Comisiwn, nodir mai nodwedd fwyaf cyfarwydd a diffiniol cwmni cydweithredol neu gydfuddiannol yw cyfranogiad. Mae cwmnïau cydweithredol hefyd yn arddel chwe egwyddor arall:

Egwyddorion Cwmnïau Cydweithredol
Aelodaeth wirfoddol ac agored
Rheolaeth ddemocrataidd gan yr aelodau
Cyfranogiad economaidd gan yr aelodau
Hunanreolaeth ac annibyniaeth
Addysg, hyfforddiant a gwybodaeth
Cydweithredu ymhlith mentrau cydweithredol
Consýrn am gymuned

Gall egwyddorion o'r fath, ynghyd â chyfranogiad, hefyd fod yn allweddol i fathau eraill o fentrau cymdeithasol y cyfeirir atynt mewn rhannau o'r adroddiad. Felly, mae'r adolygiad hwn yn cwmpasu'r holl fathau o fentrau sy'n seiliedig ar yr egwyddorion hyn.

Mae'r adroddiad yn trin a thrafod yr heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu economi a chymdeithas Cymru, ynghyd â'u goblygiadau posibl. Bu i'r Comisiwn nodi pwysigrwydd y sefyllfa economaidd bresennol, gan ddod i'r casgliad bod "cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol yn fwy o lawer na dull byrdymor o ddatrys y problemau economaidd diweddaraf". O ran problemau byrdymor a thueddiadau mwy hirdymor, mae'r adroddiad yn pwysleisio bod potensial i gwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol, o gael cymorth priodol, drawsnewid economi Cymru "gan greu swyddi o ansawdd da, cynyddu cyfoeth a chynhyrchu nwyddau a gwasanaethau o safon ar gyfer pobl Cymru".

Er bod y Comisiwn yn credu bod y potensial hwn yn berthnasol i bob math o weithgarwch economaidd, mae'n credu ei fod yn arbennig o bwysig i rai mathau o sectorau (er enghraifft tai cymdeithasol, gofal cymdeithasol, gofal iechyd, gwasanaethau hamdden a diwylliant, amaethyddiaeth, prosesu bwyd, coedwigaeth a gweithgareddau eraill sy'n gysylltiedig â'r tir) ac i sefyllfaoedd busnes penodol (olyniaeth ac achosion lle mae'r gweithwyr yn prynu busnes). Trafodwyd dyfodol y gwasanaethau cyhoeddus yn gyffredinol a daeth y Comisiwn i'r casgliad "bod dull strwythuredig, rhagweithiol o droi gwasanaethau'n gwmnïau cydfuddiannol yn well na gosod gwaith ar gontract, sy'n ddull tameidiog o weithredu a gaiff ei sbarduno gan gost". Caiff pwysigrwydd y newidiadau i'r gwasanaethau cyhoeddus a'r ystod o gyfleoedd sydd ar gael mewn sectorau eraill eu tanlinellu drwy'r adroddiad.

Ar gyfer pob un o'r sectorau a'r sefyllfaoedd mwyaf perthnasol, mae'r adroddiad yn nodi rhai mathau o feysydd y dylid gweithredu ynddynt, ac yn bennaf:

- yr angen i godi ymwybyddiaeth o'r model busnes cydweithredol a chydfuddiannol;
- yr angen am arbenigedd mewn datblygu cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol yn ogystal ag arbenigedd sy'n benodol i'r sector;
- mynediad at gyllid, yn enwedig yn ystod camau cynnar datblygiadau;
- agweddau ar waith caffael;

- yr angen am ddeddfwriaeth a pholisïau cefnogol;
- elfennau sy'n ymwneud ag arweinyddiaeth, llywodraethu ac arloesi.

Gan gydnabod gwerth y gweithgareddau datblygu a chefnogi presennol, daeth y Comisiwn i'r casgliad na fydd potensial cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol i gyfrannu'n llawn at drawsnewid rhagolygon economaidd Cymru'n cael ei wireddu oni bai bod y seilwaith ategol yn datblygu'n sylweddol. Fodd bynnag, mae'r adroddiad yn nodi "[na] ellir cyfiawnhau creu sefydliadau newydd" ac mae'n awgrymu y dylid canolbwyntio ar sicrhau bod "swyddogaethau presennol cyrff cyfryngol sy'n gweithio gyda chwmnïau cydweithredol yn cael eu datblygu'n graff...". Mae'r Comisiwn a'i argymhellion yn canolbwyntio ar greu a chryfhau'r seilwaith ategol ac ar fathau penodol o gamau gweithredu a phrosiectau i'w rhoi ar waith.

Mae'r adroddiad yn pwysleisio swyddogaeth y sector cyhoeddus 'fel partner' (gan gynnwys o ran darparu cyllid sefydlu i ddatblygu'r sector) sy'n gweithio "gyda chwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol presennol a newydd fel partneriaid busnes".

Fel y nodir yn adroddiad y Comisiwn, mae ei argymhellion yn canolbwyntio "ar greu'r seilwaith angenrheidiol ar gyfer sector cydweithredol a chydfuddiannol llewyrchus yng Nghymru. Nid ydynt fel rheol yn mynd i'r afael â materion gweithredol manwl. Mae'r argymhellion wedi'u cyfeirio at Lywodraeth Cymru a gomisiynodd yr adroddiad hwn ac a fydd yn gyfrifol am arwain a chefnogi'r newid sylweddol sy'n ofynnol, ac maent wedi'u cyfeirio at y mudiad cydweithredol a chydfuddiannol ei hun sy'n gyfrifol am ddadlau dros newid a sicrhau bod y newid hwnnw'n digwydd ar lawr gwlad."

Cynigiodd y Comisiwn y dylid hybu 'rhaglen datblygu cwmnïau cydweithredol' mewn modd gwahanol i fentrau confensiynol sy'n cael eu harwain gan y llywodraeth. Bu iddo argymhell dull gweithredu sy'n seiliedig ar gydweithio, gan ddweud: "Er bod cyrff cyhoeddus yn gallu helpu a chynorthwyo'r broses o ddatblygu cwmnïau cydweithredol, ac yn wir fod yn rhaid iddynt wneud hynny, rhaid iddynt hefyd gymryd camau rhagweithiol i gynnwys y cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol eu hunain."

Er i'r Comisiwn nodi bod rhai o'r argymhellion yn niwtral o ran cost, roedd yn tybio bod buddsoddi yn natblygiad cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol yn ffordd sicr o fodloni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru o ran swyddi, yn ogystal â'i blaenoriaethau ym maes adfywio ac iechyd. Bu iddo ganolbwyntio'n benodol ar y cyfleoedd i ddefnyddio rhaglenni cyllid newydd yr Undeb Ewropeaidd (UE).

Mae'r broses gyfan o bennu meincnodau ac adolygu perfformiad economaidd yn cael ei thrafod mewn argymhelliad penodol – ond mae'r Comisiwn hefyd yn tybio ei fod yn berthnasol i'r broses gyffredinol a gaiff ei mabwysiadu i roi'r argymhellion ar waith.

Gan fod adroddiad y Comisiwn yn cynnwys elfennau sy'n ymwneud â meysydd gweithredu penodol (yr argymhellion) yn ogystal â'r gwaith datblygu a chyflawni cyffredinol, mae'r adolygiad hwn yn rhoi sylw i'r ddwy agwedd hyn a'r gydberthynas rhyngddynt.

### 3. Datblygiadau pwysig ers cyhoeddi'r adroddiad

---

Ers cyhoeddi'r adroddiad ym mis Chwefror 2014, mae Llywodraeth Cymru wedi arwain nifer o ddatblygiadau a fydd yn effeithio ar y gwaith o drawsnewid gwasanaethau cyhoeddus a'r camau i roi'r argymhellion sy'n gysylltiedig ag addysg a chyllid ar waith, gan gynnwys

- Y Papur Gwyn "Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol"
- Rhaglenni Cyllid Ewropeaidd 2014-2020
- Cyhoeddi "Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru"
- Paratoi Astudiaeth Ddichonoldeb ynghylch creu Banc Datblygu i Gymru
- Cyhoeddi "Ai Cydfuddiannaeth yw'r Ffordd Ymlaen? – Ffyrdd Newydd o Gynllunio a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru"
- Prosiect cymorth busnes arbenigol Busnes Cymdeithasol Cymru.

#### 3.1. Y Papur Gwyn "Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol"

---

Mae'r Papur Gwyn hwn yn adeiladu ar waith y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus (o dan gadeiryddiaeth Syr Paul Williams sydd hefyd yn aelod o Gomisiwn Cwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol Cymru). Y Papur Gwyn a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2015 yw 'datganiad o fwriad' Llywodraeth Cymru o ran dyfodol llywodraeth leol yng Nghymru. Daeth yr ymgynghoriad i ben ddiwedd mis Ebrill 2015. Drwy'r cyhoeddiad i gyd, caiff rôl bosibl modelau cydweithredol a chydfuddiannol ei phwysleisio ac fe'i trafodir mewn mwy o fanylder ym Mhennod 5: Grym i Gymunedau Lleol:

*"Er mwyn gwireddu ein huchelgais, sef cael Awdurdodau Lleol sy'n rhannu grym a chyfrifoldeb yn weithredol â'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu, rydym yn egluro y rôl a welwn ar gyfer cydfuddiannaeth, cydweithio a chydberchnogaeth wrth drawsnewid gwasanaethau cyhoeddus. Rydym yn egluro'r modd y gall cymunedau ymgysylltu ag Awdurdodau Lleol er mwyn ymdrechu ar y cyd, ac yn egluro'r modd y gall pobl warchod tir ac eiddo o werth cymunedol ar gyfer y dyfodol. Rydym yn bwriadu cyflawni hynny drwy sicrhau bod cyrff cymunedol yn cael nifer o hawliau y gallant eu harfer yng nghyswllt gwasanaethau ac asedau."*

Comisiynwyd Keith Edwards, cyn Gyfarwyddwr Sefydliad Tai Siartredig Cymru, i bwysu a mesur sut i gynyddu'n sylweddol rôl cwmnïau cydweithredol, cwmnïau cydfuddiannol, mentrau cymdeithasol a sefydliadau di-elw eraill o ran modelu, rheoli, perchnogi a darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Gan fod cysylltiadau amlwg rhwng rhannau o'r Papur Gwyn ac agweddau ar adroddiad y Comisiwn, cytunwyd y byddai'r Comisiwn yn cael gwybod am y materion a'r themâu a oedd yn dod i'r amlwg, fel y'u nodwyd yn adroddiad Keith Edwards, "Ai Cydfuddiannaeth yw'r Ffordd Ymlaen? – Ffyrdd Newydd o Gynllunio a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru".

Dyma'r cysylltiadau a nodwyd:

- Fel y nodir yn argymhelliad 5 adroddiad y Comisiwn (*Ymestyn y cymorth arbenigol sydd ar gael i helpu cwmnïau cydweithredol i dyfu a datblygu mewn sectorau penodol...*) bydd angen mynd ati'n rhagweithiol i ymgysylltu â sectorau penodol a'u cynorthwyo i ddatblygu er mwyn gwireddu'r uchelgeisiau hyn. Mae hyn yn adlewyrchu'r pwyslais a roddir yn adroddiad y Comisiwn ar ddefnyddio dull gweithredol mewn sawl sector, er enghraifft fel y nodir yn Adran 4 'Sicrhau newid sylweddol', "[bydd] angen cymorth ac anogaeth ragweithiol i sbarduno gwaith datblygu cwmnïau cydweithredol ym maes gofal cymdeithasol...".
- Mae elfennau'r Papur Gwyn sy'n ymwneud â throsglwyddo asedau (asedau'r sector cyhoeddus a'r sector preifat) yn cydweddu'n agos ag argymhellion adroddiad y Comisiwn (argymhellion 11 a 12 o ran Tir ac Asedau). Fel y nodir, bydd yn hollbwysig cydnabod yr amser sylweddol y bydd ei angen ar gymunedau i ddatblygu'r holl agweddau ymarferol perthnasol, yn ogystal â chodi'r arian angenrheidiol.
- Mae'r Comisiwn yn ategu'r gydnabyddiaeth o'r angen i sicrhau bod gan gymunedau a chwmnïau cydweithredol / cydfuddiannol posibl y capasiti a'r gallu angenrheidiol i weithredu'n hollol effeithiol a chynaliadwy. Ni ddylid diystyru maint y newidiadau sydd ynghlwm wrth brosesau o'r fath – o ran cymhelliad, sgiliau, agwedd ac amser, yn ogystal â'r holl faterion ymarferol manwl y bydd angen rhoi sylw iddynt.
- Felly, bydd angen canolbwyntio'n bennaf ar sut i ddatblygu'r gallu hwn yn llawn. Bydd y pecynnau cymorth y cyfeirir atynt yn y Papur Gwyn yn gam cyntaf defnyddiol. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn yn tanlinellu'r angen i gydnabod maint y newidiadau a ddisgwylir mewn gwirionedd a'r angen i sicrhau bod cymorth ymarferol ar gael i hwyluso ac i ddatblygu'r modelau hyn er mwyn cyflawni'r newidiadau. O ran gwasanaethau cyhoeddus, mae'r adroddiad yn nodi: "*Mae'r Comisiwn yn pryderu ynghylch y prinder cyngor sydd ar gael i gyrff cyhoeddus pan fyddant yn ystyried modelau amgen ar gyfer darparu gwasanaethau cyhoeddus.*" Bydd angen sicrhau bod digon o gapasiti ar gael i ddarparu cyngor a chymorth o'r fath hefyd.
- I feithrin gallu mentrau cymunedol, cydweithredol a chydfuddiannol newydd, bydd angen darparu cymorth i sicrhau bod trefniadau llywodraethu a rheoli arian priodol ar waith a'u bod yn mynd ati mewn ffordd ystyrlon i fabwysiadu gwerthoedd perthnasol o ran aelodaeth a pherchnogaeth.
- O ystyried y dystiolaeth y bu'r Comisiwn yn craffu arni, er enghraifft sylw Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen fod "*angen adnodd wedi'i dargedu a fydd yn arwain cwmnïau deillio posibl trwy'r broses...*", mae'n cynnig bod dull / fframwaith cymorth a datblygu penodol o ryw fath yn cael ei gyflwyno yn ystod y cyfnod sy'n dod i fynd i'r afael â chymaint â phosibl o'r rhan hon o'r agenda hon. Dylid ymgorffori dull o'r fath mewn swyddogaeth / sefydliadau sy'n bodoli eisoes, a bydd angen i unigolion a chyrrff allweddol yn y sector cydweithredol a chydfuddiannol ymgysylltu mewn ffordd ystyrlon.
- Un o brif nodweddion adroddiad y Comisiwn yw'r pwyslais ar y rôl y gall y cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol presennol ei chwarae i gynorthwyo eraill wrth iddynt ddatblygu (gan atseinio un o nodweddion diffiniol cydweithredu y cyfeirir ati fel Egwyddor 6 – Cydweithredu ymhlith mentrau cydweithredol). Felly, bydd angen i'r dull arfaethedig sicrhau bod mentrau cydweithredol perthnasol a



phrofiadol yn ymgysylltu mewn ffordd gadarnhaol i ddarparu cymorth mentora a chymorth ymarferol parhaus i'r sector. Bydd hefyd yn hanfodol sicrhau bod cymorth parhaus ar gael i fentrau cydweithredol a chydfuddiannol newydd am dair blynedd ar ôl eu sefydlu. Yn y tymor hwy, dylai fod yn ofynnol i'r mentrau cydweithredol a chydfuddiannol newydd eu hunain fentora a chynorthwyo eraill sy'n ystyried ac yn datblygu mentrau cydweithredol a chydfuddiannol newydd.

- Mae'r Papur Gwyn yn cydnabod bod angen 'fframwaith i gefnogi'r trawsnewid' i ategu'r agenda hon. Pan gyhoeddwyd yr adroddiad "Ai Cydfuddiannaeth yw'r Ffordd Ymlaen? – Ffyrdd Newydd o Gynllunio a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru", cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddatganiad ysgrifenedig a oedd yn egluro y byddai'n llunio cynllun gweithredu i roi canfyddiadau'r adroddiad ar waith. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n ymgynghori ar y cynllun gweithredu hwnnw ac mae wedi cynnal nifer o weithdai penodol gyda'r sector i glywed barn rhagor o bobl ar y camau i sefydlu fframwaith ar gyfer cydweithio i ddatblygu modelau amgen i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.

### 3.2 Rhaglenni Cyllid Ewropeaidd 2014-2020

---

Mae adroddiad y Comisiwn yn cyfeirio'n benodol at rownd nesaf cyllid yr Undeb Ewropeaidd a fydd yn gyfle i gyflawni'r math o newid sylweddol sydd ei angen. Dyma enghreifftiau o'r cysylltiadau posibl rhwng ffynonellau cyllid Ewropeaidd a rhai o'r gweithgareddau a argymhellir yn adroddiad y Comisiwn.

- rhaglenni cronfeydd strwythurol Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) a Chronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF);
- rhaglenni Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD) a Chronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop;
- rhaglenni trawswladol fel INTERREG.

Gyda'i gilydd, bydd y rhaglenni hyn yn ffurfio'n hyn a elwir yn Gronfa Buddsoddi Strategol Ewrop yng Nghymru. Mae'r Fframwaith Blaenoriaethau Economaidd ar gyfer Cronfeydd Ewropeaidd Cymru yn ei le i gefnogi'r camau i roi Cronfa Buddsoddi Strategol Ewrop ar waith ac mae'n ceisio sicrhau bod cyllid Ewropeaidd a chyllid domestig yn cael eu hintegreiddio mewn ffordd ystyrlon. Mae'r dogfennau'n dueddol o gyfeirio at sefydliadau sy'n defnyddio model cydfuddiannol neu ddi-elw o dan faner 'mentrau cymdeithasol'. Er enghraifft, yn y Fframwaith Blaenoriaethau Economaidd, mae 'gweithrediadau asgwrn cefn' (h.y. y prosiectau prif ffrwd a gaiff eu hariannu o ddechrau'r rhaglenni) yn cynnwys:

- Cynllun(iau) cymorth busnes integredig ar gyfer busnesau bach a chanolig (BBaCh) (gan gynnwys mentrau cymdeithasol, ffermwyr a physgotwyr) o fusnesau newydd i fusnesau sy'n tyfu (gan gynnwys rhyngwladoli, defnyddio adnoddau'n effeithlon, carbon isel a manteisio ar Dechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)).
- Cymorth wedi'i deilwra ar gyfer mentrau cymdeithasol a busnesau bach a chanolig ym maes ffermio lle nodwyd bod bylchau mewn cynlluniau integredig.

O fewn rhaglenni Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, mae'r Flaenoriaeth Cystadleurwydd BBaCh hefyd yn cyfeirio at fentrau cymdeithasol:

- Cynyddu nifer y BBaCh newydd drwy ddarparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad a chymorth ym maes entrepreneuriaeth, gan wneud hynny o fewn Egwyddor Darged

'Cymorth / dulliau gweithredu wedi'u teilwra ar gyfer grwpiau targed gwahanol (e.e. Mentrau Cymdeithasol)'.

- Cynyddu twf y BBaChau hynny â photensial i dyfu, yn enwedig drwy gael mynediad i farchnadoedd newydd (domestig a rhyngwladol), gan wneud hynny o fewn Egwyddor Darged 'Ystyried BbaChau â gwahanol amcanion a chyfansoddiad cyfreithiol (e.e. Mentrau Cymdeithasol)'.

O fewn elfen LEADER Cynllun Datblygu Gwledig newydd Cymru (EAFRD – Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig) nodir bod rhai mathau penodol o weithgareddau'n flaenoriaeth (yng Nghanllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer Grwpiau Gweithredu Lleol). Yn eu plith mae:

- Ychwanegu gwerth at hunaniaeth leol ac adnoddau naturiol a diwylliannol
- Hwyluso datblygu cyn-masnachol, partneriaethau busnes a chadwyni cyflenwi byr
- Edrych ar ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau lleol anstatudol
- Ynni adnewyddadwy ar lefel gymunedol
- Manteisio ar dechnoleg ddigidol.

### 3.3. Cyhoeddi "Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru"

Ym mis Mawrth 2014, gofynnodd Llywodraeth Cymru i'r Athro Graham Donaldson gynnal adolygiad sylfaenol o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 4.

Mae adroddiad yr Athro Donaldson, "Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru", a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2015, yn nodi bod gwir gryfderau ar gael yng Nghymru, gan gynnwys y Cyfnod Sylfaen, Bagloriaeth Cymru, y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a'r ymrwymiad i'r Gymraeg a diwylliant Cymru, gan ddweud y gall Cymru adeiladu arnynt. Mae ei adroddiad hefyd yn nodi gwendidau trefniadau presennol y cwricwlwm ac yn gwneud cyfres o argymhellion i fynd i'r afael â nhw ac i wella'r ffordd y mae plant yn cael eu dysgu a'u hasesu yn ysgolion Cymru.

Mae'r Athro Donaldson yn credu y dylid cynllunio'r cwricwlwm ysgol mewn ffordd a fydd yn sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru:

- yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes
- yn gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith
- yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd
- yn unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

I ategu'r amcanion hyn, dywedodd yr Athro Donaldson fod angen cwricwlwm diwygiedig sy'n hybu dysgu yn hytrach na'i lesteirio ac sy'n ystyried yr hyn sydd orau i'r plentyn neu'r person ifanc.

Tra oedd yr Athro Donaldson yn cynnal ei adolygiad, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei chynllun gwella addysg, "Cymwys am Oes". Mae'r cynllun hwn yn pennu chwech

o egwyddorion a gwerthoedd y bwriedir iddynt lywio'r gwaith o adeiladu ar 'hanes a thraddodiad hir [Cymru] o werthfawrogi addysg', gan gynnwys:

*"Mae llwyddiant ein system addysg yn dibynnu ar lwyddiant pob plentyn. Mae cydgyfrifoldeb, wedi'i ategu gan werthoedd cydweithredol partneriaeth, ymddiriedaeth, parchu a chynorthwyo ein gilydd yn sail i'r ffordd rydym yn gweithio gyda'n gilydd."*

Mae'r Athro Donaldson yn credu bod angen cydweithrediad ac ymrwymiad ymarferwyr addysgol a'r gymuned ehangach er mwyn i unrhyw gwricwlwm newydd lwyddo.

Yn sgil cyhoeddi adolygiad yr Athro Donaldson, lansiodd Llywodraeth Cymru 'Y Sgwrs Fawr' a oedd yn fforwm i bobl Cymru drafod yr adroddiad a'i argymhellion.

Mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau wedi derbyn yn llwyr yr argymhellion a wnaed gan yr Athro Donaldson yn sgil ei adolygiad o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru, "Dyfodol Llwyddiannus".

Wrth iddi roi'r argymhellion ar waith, mae cyfle i Lywodraeth Cymru ddiwygio'r system addysg a llunio ei chwricwlwm ei hun ar gyfer Cymru a fydd yn arwain y byd. Yn sgil adroddiad yr Athro Donaldson, mae Llywodraeth Cymru wedi cynnull grŵp o arbenigwyr, sy'n cynnwys yr holl randdeiliaid allweddol, i lunio cynllun gweithredu strategol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen sy'n cynnwys camau gweithredu ar gyfer y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir a fydd yn cyflwyno dull hirdymor o ddatblygu ymarfer cyson dda ledled Cymru. Caiff y cynllun ei gyhoeddi yn gynnar yn 2016.

Bwriedir creu system hunanwella sy'n caniatáu i bob dysgwyr yng Nghymru fwynhau dysgu ac addysgu sy'n eu hysbrydoli i lwyddo mewn cymuned addysg sy'n cydweithio, sy'n anelu at fod yn wych ac sy'n mynd ati i ddatblygu potensial pob plentyn a phob person ifanc.

### **3.4. Astudiaeth ddichonoldeb ynghylch creu Banc Datblygu i Gymru**

---

Ym mis Mehefin 2014, bu i Lywodraeth Cymru gomisiynu'r Athro Dylan Jones-Evans i gadeirio Grŵp Gorchwyl a Gorffen i baratoi adroddiad am ffurf, swyddogaeth a dichonoldeb posibl Banc Datblygu i Gymru. Fel rhan o'r gwaith, roedd gofyn pwysu a mesur cysylltiadau agosach rhwng trefn cymorth ariannol a threfn cymorth busnes Llywodraeth Cymru, yn ogystal â sicrhau mwy o gyllid o'r sector preifat i gefnogi busnesau yng Nghymru.

Cyhoeddwyd yr adroddiad, "A Feasibility Study into the Creation of a Development Bank for Wales", ym mis Mawrth 2015 ac mae'n argymhell sefydlu corff newydd, sef 'Banc Datblygu i Gymru', i sicrhau bod modd i Lywodraeth Cymru gynorthwyo busnesau bach a chanolig yng Nghymru'n well.

O sefydlu corff o'r fath, byddai'n ategu argymhellion 9 a 10 y Comisiwn ac yn caniatáu i'r rheini sy'n darparu cymorth busnes gydweithio'n agos â'r sector preifat a darparwyr i fynd i'r afael â'r galw a'r cyflenwad ym marchnad gyllid Cymru, yn ogystal â datblygu dull arloesol o ddarparu atebion sy'n mynd i'r afael yn uniongyrchol ag anghenion y sector busnesau bach a chanolig, gan gynnwys modelau busnes cydweithredol a chydfuddiannol.

Mae'r gwaith ar y Banc Datblygu'n parhau ac mae'n cael ei arwain gan Gyllid Cymru sy'n gweithio ochr yn ochr â swyddogion Llywodraeth Cymru.



### 3.5. Ai Cydfuddiannaeth yw'r Ffordd Ymlaen? Ffyrdd Newydd o Gynllunio a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru

---

I fynd i'r afael â'r bylchau a bennwyd gan y Comisiwn o ran arbenigedd ac i roi ar waith yr amcanion polisi a nodir yn y Papur Gwyn, "Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol", comisiynwyd Keith Edwards ar y cyd gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth a'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus i bwysu a mesur yr hyn sydd ei angen i hwyluso datblygiad ymarferol modelau cydfuddiannol ym maes darparu gwasanaethau cyhoeddus.

Yn ystod ei adolygiad, bu Keith Edwards yn pwysu a mesur rôl bosibl cwmnïau cydfuddiannol, cwmnïau cydweithredol a modelau cyd-berchnogaeth ym maes darparu gwasanaethau cyhoeddus modern drwy:

- Adolygu'r cyd-destun polisi ac ymarfer cyfredol gan gynnwys nodi enghreifftiau o arfer dda o Gymru a thu hwnt;
- Canfod barn a lefel y gefnogaeth i nodau'r prosiect drwy ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid allweddol;
- Nodi cyfleoedd partneriaeth penodol ag awdurdodau lleol yng nghyswllt amrywiaeth o wasanaethau.

Mae adroddiad Keith Edwards yn amlinellu'r berthynas bresennol rhwng cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol a'r gwaith o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, ynghyd â'r posibilrwydd o ddatblygu'r berthynas hon yn hytrach na phreifateiddio gwasanaethau, diswyddo staff neu gau gwasanaethau. Mae'n crynhoi sefyllfa'r holl sefydliadau allweddol sydd â diddordeb, a'u rôl bosibl o ran llywio'r newid, cyn cynnig ffyrdd o gefnogi camau i drawsnewid gwasanaethau cyhoeddus gan ddefnyddio modelau cydweithredol.

Er bod llawer o waith eisoes yn cael ei gyflawni yn y maes hwn ar draws y gwasanaethau cyhoeddus, mae'r adroddiad hwn yn egluro bod cyfle i wella ac i ddatblygu gwasanaethau mwy cadarn a chynaliadwy o fewn ethos gwasanaeth cyhoeddus cadarn. Byddai hyn, yn ei dro, yn diogelu buddiannau'r cymunedau sy'n defnyddio'r gwasanaethau a'r gweithlu sy'n eu darparu.

Mae'r adroddiad yn cydnabod y gwaith cadarnhaol sydd eisoes yn digwydd yng Nghymru ond mae'n nodi bod cyfle i ledaenu'r gwaith arloesol a chreadigol sy'n digwydd mewn rhai mannau i ardaloedd eraill er mwyn sicrhau nad yw gwasanaethau hanfodol yn dod i ben. Mae'r adroddiad yn awgrymu bod "*angen i Lywodraeth Cymru weithio ar y cyd ar y broses drawsnewid a phennu gweledigaeth hirdymor.*"

Er bod unrhyw broses drawsnewid radical yn sicr o fod yn ddadleuol, mae gwaith Keith Edwards yn nodi bod Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid yn cytuno ar nifer o bwyntiau sylfaenol, yn enwedig ar lefel leol, gan gynnwys:

- O ystyried maint a natur hirdymor yr her sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus, nid yw 'busnes fel arfer' yn opsiwn;
- Rhaid i'r broses fod yn wirioneddol drawsnewidiol a chynaliadwy;
- Er bod y rhan fwyaf o'r cyrff sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru'n gwrthod opsiynau sy'n ymwneud â phreifateiddio, nid ydynt yn gwrthod opsiynau sy'n cynnig atebion di-elw, ar y sail mai'r hyn sy'n bwysig yw bod y gwasanaeth yn gweithio, a bod rhaid i'w ffurf fod yn seiliedig ar ei swyddogaeth.

Mae'n amlwg bod modelau cydfuddiannol a democrataidd eraill yn aml yn cymryd cryn amser i aeddfedu, ac nid yw'n ddelfrydol eu lansio ar adeg pan fo cyrff cyhoeddus yn gorfod gwneud penderfyniadau ar frys oherwydd bod eu cyllidebau'n lleihau. Felly, efallai nad yw mynd ati i ddatblygu opsiynau cydfuddiannol yn cydweddu â'r pwysau i sicrhau cynnydd cyflym ac i ddatblygu modelau amgen ar unwaith ar gyfer meysydd gwasanaeth sydd o dan bwysau difrifol. Bydd yn hollbwysig casglu a rhannu arferion da yn y broses drawsnewid a sicrhau bod hyn yn digwydd ar raddfa llawer mwy ac yn llawer cyflymach.

Mae cyfle i fenter fawr feithrin mwy o ymdeimlad o gyfrifoldeb yn y sector di-elw presennol dros gefnogi twf sefydliadau newydd yn unol ag Egwyddor Gydweithredol Ryngwladol 6, sef y dylai mentrau cydweithredol gynorthwyo mentrau cydweithredol eraill. Mae'r adroddiad yn pwysleisio bod *"pwysigrwydd dod o hyd i ffyrdd newydd radical o wneud pethau tra'n cynnal y gwerthoedd a rennir gennym nid yn unig yn gryfach bellach, ond yn anochel ... mae'n rhaid i ni sicrhau bod fframwaith â'r adnoddau priodol ar waith i gefnogi proses weithredu lwyddiannus a chynaliadwy"*.

### 3.6. Prosiect cymorth busnes arbenigol Busnes Cymdeithasol Cymru

---

Ym mis Mehefin 2015, lansiwyd prosiect Busnes Cymdeithasol Cymru, sef prosiect gwerth £11 miliwn sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru a'r gronfa ERDF a'i reoli gan Ganolfan Cydweithredol Cymru. Mae'r prosiect hwn yn cynorthwyo busnesau cymdeithasol i dyfu drwy ehangu, arallgyfeirio, cydweithio ag eraill, a throsglwyddo o fodel busnes traddodiadol i fodel busnes sy'n eiddo i'r gweithwyr. Gan weithredu fel rhan o wasanaeth ehangach Busnes Cymru sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru a'r UE, [www.busnes.cymru.gov.uk](http://www.busnes.cymru.gov.uk), bydd y prosiect yn darparu gwasanaethau cymorth arbenigol i helpu busnesau i ehangu eu cynnyrch, eu gwasanaethau a'u marchnadoedd. Bydd hefyd yn cynorthwyo elusennau i sefydlu canghennau masnachu i roi syniadau masnachol ar waith.

Mae cymorth ar-lein ychwanegol hefyd ar gael i unigolion sy'n bwriadu dechrau busnes cymdeithasol neu sydd am gael rhywfaint o wybodaeth ynghylch rhedeg busnes cymdeithasol sy'n bodoli eisoes. Mewn achosion o'r fath, dylid cyfeirio'r cleientiaid at wefan [www.busnescymdeithasolcymru.com](http://www.busnescymdeithasolcymru.com) lle ceir canllawiau, adnoddau a chyngor gan Ganolfan Cydweithredol Cymru a Llywodraeth Cymru.

## 4. Argymhellion y Comisiwn – Crynodeb o'r sefyllfa bresennol a'r amcanion at y dyfodol

---

Daeth argymhellion adroddiad y Comisiwn i'r amlwg:

- drwy gasglu tystiolaeth ysgrifenedig a thystiolaeth lafar gan bron i 100 o sefydliadau ac unigolion ac o ffynonellau eraill;
- drwy drafodaethau ymhlith aelodau'r Comisiwn a Grŵp Cynghori'r sector i ddi-doli'r prif themâu.

Pan gyhoeddwyd yr adolygiad hwn, gofynnwyd i Lywodraeth Cymru a'r Grŵp Cynghori roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Comisiwn am y camau perthnasol a gymerwyd i roi'r argymhellion ar waith. Bu'r Comisiwn yn trafod eu cyfraniadau yn ei gyfarfod ar 27 Chwefror 2015.

Er bod yr ymatebion yn gynhwysfawr, roedd y Comisiwn yn credu eu bod yn dueddol o ddisgrifio'r hyn a oedd wedi digwydd neu'r hyn sy'n digwydd mewn meysydd sy'n gysylltiedig â'r argymhellion. Gofynnodd y Comisiwn am ragor o adborth ynghylch yr amcanion at y dyfodol. Mae Llywodraeth Cymru a Grŵp Cynghori'r Comisiwn wedi cefnogi'r cais hwn am ragor o wybodaeth.

### 4.1. Addysg ar gyfer cydweithredu

---

Roedd yr argymhellion yn cyfeirio at ymgorffori'r gwerthoedd, yr egwyddorion a'r sgiliau sy'n gysylltiedig â chydweithredu drwy'r system addysg i gyd, gan gynnwys yn ethos pob agwedd ar drefniadaeth a threfn lywodraethu ysgolion. Roeddent hefyd yn cyfeirio at ymgorffori dysgu am gydweithredu yn y cwricwlwm cynradd ac uwchradd yn gyffredinol ac o fewn y Strategaeth Entrepreneuriaeth Ieuencid a Bagloriaeth Cymru'n benodol. Roedd yr argymhellion hefyd yn cyfeirio at sawl elfen sy'n berthnasol i addysg uwch.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cael trafodaethau cychwynnol cadarnhaol â Phrif Weithredwr y Coleg Cydweithredol i drafod argymhellion Comisiwn Cwmniïau Cydweithredol a Chydfuddiannol Cymru o ran addysg. Mae'r Coleg Cydweithredol wedi cynnig cyngor a chymorth i fynd i'r afael â'r materion hyn. Yn y tymor byr, mae camau'n cael eu cymryd i sicrhau bod modd dosbarthu deunyddiau a gynlluniwyd gan y Coleg Cydweithredol i ysgolion.

O ran llywodraethu a rheoli ysgolion, nid oes unrhyw ddarpariaeth gyfreithiol yng Nghymru i sefydlu ysgolion Ymddiriedolaethau Sefydledig nac academiâu ag ymddiriedolaeth tebyg i'r rheini y mae model yr ysgol ymddiriedolaeth gydweithredol yn seiliedig arno yn Lloegr (er bod y Comisiwn yn nodi bod y twf sylweddol yn nifer yr ysgolion cydweithredol yn Lloegr wedi'i lywio'n bennaf gan ysgolion sydd wedi dewis mabwysiadu model cydweithredol yn hytrach na'r model Ymddiriedolaeth Sefydledig confensiynol). Fodd bynnag, yng Nghymru, ceir cefnogaeth lwyr ar gyfer egwyddorion ac ethos y dull cydfuddiannol a chydweithredol a'r nod yw ymgorffori'r egwyddorion hyn mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru. Mae'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer cyfansoddiad cyrff llywodraethu ysgolion Cymru wrthi'n cael ei adolygu gyda golwg ar ganiatáu mwy o hyblygrwydd i sefydlu cyrff llywodraethu ar sail egwyddorion cydweithredol. Un o elfennau canolog yr adolygiad hwn fydd pwyso a mesur sut y gellir ymgorffori'r model cydweithredol ymhellach yn y fframwaith cyfreithiol presennol heb fod angen deddfwriaeth sylfaenol.

Yn gyffredinol, mae cydweithredu – yn enwedig rhwng ysgolion – yn dod yn nodwedd amlycach o'r system addysg, gan gynnwys sawl cynllun blaenoriaeth ar gyfer gwella ysgolion. O ran adolygiad Donaldson<sup>2</sup> mae llawer o 'nodweddion allweddol' dibenion y cwricwlwm yn cydweddu â'r ethos cydweithredol, a bydd yn rhan ganolog o gwricwlwm newydd Cymru sy'n destun ymgynghoriad ar hyn o bryd. Ym mis Mehefin 2015, bu i Lywodraeth Cymru ymateb i adolygiad Donaldson gan gadarnhau ei bod yn bwriadu rhoi'r argymhellion ar waith. Bydd mentrau *Her Ysgolion Cymru*, fel yr *Arlwy i'r Disgyblion*, yn helpu ysgolion *Llwybrau Llwyddiant* i feithrin partneriaethau cydweithredol â sefydliadau tu allan i'r sector addysg er budd y disgyblion a chymuned yr ysgol. Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt â'r Coleg Cydweithredol ynghylch yr *Arlwy i'r Disgyblion* a'r partneriaethau ehangach y mae'r ysgolion *Llwybrau Llwyddiant* wedi'u meithrin.

Gan gyflawni camau gweithredu Strategaeth Entrepreneuriaeth leuencid 2010-2015, mae Bagloriaeth Cymru ddiwygiedig 2015 yn tanlinellu pwysigrwydd meithrin sgiliau hanfodol ac mae'n rhoi cyfle i'r sector cydweithredol a chydfuddiannol ymgysylltu drwy'r Heriau Menter a Chyflogadwyedd a'r Heriau Cymunedol. Mae Cyd-bwyllgor Addysg Cymru (CBAC) yn cefnogi'r camau i ddatblygu'r heriau busnes sy'n ymwneud yn benodol â mentrau cymdeithasol a chwmnïau cydweithredol gyda sefydliadau allanol fel Canolfan Cydweithredol Cymru.

Mae'n ymddangos bod yr ystod o weithgareddau addysg ac ymchwil sy'n gysylltiedig â chwmnïau cydweithredol, cwmnïau chydfuddiannol a mentrau cymdeithasol ym maes addysg uwch yng Nghymru'n llawer llai amlwg, gan fod pob sefydliad yn gorff annibynnol. Fodd bynnag, mae gwir gyfle i godi ymwybyddiaeth o'r ystod o weithgareddau sydd eisoes yn digwydd ac i atgyfnerthu'r cysylltiadau rhwng datblygu cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol ac addysg ac ymchwil graddedigion ac uwchraddedigion, gan gynnwys, i gychwyn, drwy ddatblygu adnodd ar-lein penodol ar gyfer addysg uwch sy'n gysylltiedig ag adran newydd Busnes Cymdeithasol Cymru ar wefan Busnes Cymru. Mae gwir gyfle hefyd i feithrin cysylltiadau rhwng elfennau cydweithredol yr agendâu cyflogadwyedd ac entrepreneuriaeth ym maes addysg uwch a sefydliadau cydweithredol a chydfuddiannol er mwyn creu buddion cyffredin. Er enghraifft, byddai modd cydweithio mwy â gwasanaethau gyrfaoedd addysg uwch ac ymgorffori agweddau cydweithredol mewn prosiectau newydd pan fyddant yn datblygu.

#### 4.2. Cyngor, cymorth a datblygu cwmnïau cydweithredol

---

Roedd yr argymhellion yn cyfeirio at yr angen i sicrhau bod ystod gynhwysfawr o gymorth a chyngor busnes ar gael i gwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol, gan gynnwys adnodd penodol drwy borth ar we. Roedd yr argymhellion hefyd yn nodi'r angen am gymorth arbenigol penodol i helpu cwmnïau cydweithredol i dyfu a datblygu mewn sectorau penodol; i gynorthwyo gweithwyr i brynu cwmnïau; ac i annog cwmnïau cydweithredol sy'n bodoli eisoes i wneud mwy i gynorthwyo cwmnïau cydweithredol newydd i ddatblygu.

Mae Llywodraeth Cymru a Chanolfan Cydweithredol Cymru wedi cydweithio'n agos i asesu'r cymorth sydd ei angen ar gwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol. Mae gwasanaeth Busnes Cymru sy'n cael ei redeg gan Lywodraeth Cymru'n rhyngweithio'n

---

2 Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru (2015)

helaeth â llawer o fusnesau, a bydd yn rhoi hyfforddiant i'r sefydliadau sy'n darparu'r prif wasanaethau cyffredinol, a fydd yn cynnwys y gallu i nodi'r rheini sydd am ddechrau neu dyfu busnesau cymdeithasol ac i nodi achosion lle gallai fod yn hyfyw i'r gweithwyr brynu cwmni. Bydd perchnogaeth gan y gweithwyr yn cael ei gynnwys yn yr adnodd diagnostig safonol a ddefnyddir gyda phob cwmni sy'n defnyddio'r gwasanaethau cynghori ac, os bydd angen, caiff yr achos ei gyfeirio at wasanaeth Busnes Cymdeithasol Cymru. Bydd y rhan benodol hon o waith Busnes Cymdeithasol Cymru'n cynnwys codi ymwybyddiaeth perchnogion busnes a chyfryngwyr, yn ogystal â darparu cymorth ymarferol i gydweithio â phartion â diddordeb er mwyn iddynt gamu drwy wahanol gamau'r broses o greu mentrau cynaliadwy sy'n eiddo i'r gweithwyr.

O ran cymorth penodol ar gyfer twf mewn sectorau penodol, mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i ddarparu swm sylweddol o arian cyfatebol ar gyfer gwasanaeth Busnes Cymdeithasol Cymru sy'n cael ei arwain gan Ganolfan Cydweithredol Cymru a'i gefnogi gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF).

Bydd gwasanaeth Busnes Cymdeithasol Cymru'n cynorthwyo cwmnïau cydweithredol, cwmnïau cydfuddiannol, mentrau cymdeithasol a chwmnïau sy'n eiddo i'r gweithwyr sy'n awyddus i dyfu. Mae Busnes Cymru a Busnes Cymdeithasol Cymru wedi cytuno ar drefniadau cydweithio manwl.

Mae Llywodraeth Cymru a Chanolfan Cydweithredol Cymru wedi bod yn cydweithio'n agos hefyd i greu ardal benodol ar gyfer cwmnïau cydweithredol, cwmnïau cydfuddiannol a mentrau cymdeithasol ar wefan Busnes Cymru. Siop un stop i gael canllawiau, adnoddau a chyngor ar-lein yw [www.busnescymdeithasolcymru.com](http://www.busnescymdeithasolcymru.com). Gall hefyd gynorthwyo unigolion sy'n bwriadu dechrau busnes cymdeithasol neu unigolion sydd am gael rhywfaint o wybodaeth ynghylch rhedeg busnes cymdeithasol sy'n bodoli eisoes.

Mae un o feysydd gwaith prosiect Busnes Cymdeithasol Cymru wedi'i neilltuo i ddarparu rhaglen fentora gan gymheiriaid. Mae'r maes gwaith hwn yn gyfle i reolwyr busnesau cymdeithasol gyfnewid gwybodaeth, sgiliau a chyngor â'u cymheiriaid, ac elwa o wneud hynny. Ei nod yw atgyfnerthu sgiliau a hyder unigolion er mwyn iddynt reoli, arwain a llywio busnes cymdeithasol drwy gynllun twf strategol. Mae'r holl fentoriaid yn dod o'r sector busnes cymdeithasol.

Mae aelodau Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru a Chwmnïau Cymdeithasol Cymru hefyd yn mentora mentrau cymdeithasol a mentrau cymunedol newydd.

Mae'r Comisiwn hefyd yn nodi bod Fframwaith Canlyniadau Cymunedau yn Gyntaf yn cynnwys nifer mawr o flaenoriaethau, gan gynnwys 'Cefnogi menter, bancio amser ac adeiladu cyfalaf cymdeithasol'. O fewn y flaenoriaeth hon, ceir nifer o fesurau perfformiad sy'n cynnwys:

- Gwybodaeth well ar gyfer rhedeg menter gymdeithasol
- Gwybodaeth well ar gyfer rhedeg busnes
- Nifer y mentrau cymdeithasol a sefydlwyd
- Nifer y bobl sydd wedi dechrau hunangyflogaeth.

Mae Cyrff Cyflawni Arweiniol Cymunedau yn Gyntaf yn gyfrifol am bennu'r prif flaenoriaethau ar gyfer eu clystyrau a gallant ddatblygu'r strwythurau sy'n gweddu orau i'w hamgylchiadau lleol yn eu cynlluniau cyflawni.



### 4.3. Cyllid buddsoddi

---

Roedd yr argymhellion yn cyfeirio at yr angen i greu cronfa o grantiau a benthyciadau penodol ar gyfer mentrau cydweithredol a chydfuddiannol a mentrau cymdeithasol eraill – gan gynnwys cyllid wedi'i glustnodi ar gyfer achosion lle caiff cwmnïau eu prynu gan y gweithwyr. Roedd yr adroddiad hefyd yn argymhell y dylai cyllidwyr a darparwyr cymorth busnes gydweithio'n agosach i sicrhau eu bod yn deall modelau cydweithredol a bod y cwmnïau cydweithredol eu hunain, yn eu tro, yn dod yn fwy 'parod ar gyfer buddsoddiad' fel y bo'n briodol.

Mae manylion y mathau o gyllid a darparwyr cyllid y gall busnesau cymdeithasol eu defnyddio ar gael ar dudalennau gwe Busnes Cymdeithasol Cymru ac ar dudalennau'r Parth Cyllid ar wefan Busnes Cymru. Mae'r wybodaeth yn cael ei diweddarau'n gyson.

Mae Cyllid Cymru ar y cyd â Swyddogion Llywodraeth Cymru wrthi'n datblygu cynigion i greu Banc Datblygu i Gymru.

Gofynnodd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth i Robert Lloyd Griffiths, yn rhinwedd ei rôl fel Cadeirydd Bwrdd Strategol Busnes Cymru, arwain adolygiad i ystyried sut y dylid sicrhau bod cymorth anariannol Llywodraeth Cymru'n cydweddu â'r cymorth ariannol sydd ar gael i fusnesau, ac yn ategu'r cymorth hwnnw. Bu'r Adolygiad hwnnw'n canolbwyntio ar y gofynion ariannu a'r materion sy'n ymwneud â pharodrwydd microfusnesau a busnesau bach a chanolig, yn ogystal â chwmnïau cydweithredol, cwmnïau cydfuddiannol a mentrau cymdeithasol, i gael buddsoddiad ac i fenthyca. Gwnaeth yr Adolygiad hwnnw gyfres o argymhellion ac mae camau eisoes yn cael eu cymryd i'w rhoi ar waith, gan gynnwys i'r graddau y maent yn berthnasol i wasanaeth Busnes Cymdeithasol Cymru, i sicrhau bod busnesau, gan gynnwys cwmnïau cydweithredol, cwmnïau cydfuddiannol a mentrau cymdeithasol, yn 'barod i fenthyca' ac yn gallu cael gafael ar y cyllid sydd ei angen arnynt i dyfu.

Dros gyfnod, mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) wedi datblygu Cronfa Buddsoddi Cymunedol i ateb rhai o ofynion ariannu cwmnïau cydfuddiannol a mentrau cymdeithasol – ac mae wedi cydweithio â Chanolfan Cydweithredol Cymru i'w rhoi ar waith. Mae'n ymddangos bod cyfle i greu cronfa ehangach (gan adeiladu ar y Gronfa Buddsoddi Cymunedol) i ateb ystod ehangach o ofynion cwmnïau cydweithredol, cwmnïau cydfuddiannol a mentrau cymdeithasol (gan gynnwys, o bosibl, rai agweddau sy'n gysylltiedig â'r newidiadau i'r gwasanaethau cyhoeddus). Byddai angen i'r gronfa hon gydweithio â Busnes Cymdeithasol Cymru. Mae CGGC hefyd yn rheoli elfennau o gronfeydd ar gyfer busnesau cymdeithasol ar ran cyrff eraill, gan gynnwys Cyllid Cymru a'i Gronfa Benthyciadau i Ficrofusnesau, a'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni / Ynni'r Fro.

### 4.4. Tir ac asedau

---

Roedd yr argymhellion yn cyfeirio at dir ac asedau yn nhermau sicrhau 'budd cymunedol' a diogelu gwasanaethau hanfodol – gan gynnig yn benodol y dylai Llywodraeth Cymru lunio deddfwriaeth i alluogi cymunedau i restru eu hasedau a chael y cynnig cyntaf i'w prynu pan fyddant yn cael eu gwaredu; cyflawni rhagor o waith ar gloi asedau; a hybu gwaith i ddatblygu Sefydliadau Cyllid Datblygu Cymunedol er mwyn buddsoddi yn y maes hwn.

Mae cwmpas y materion sy'n gysylltiedig â'r thema hon, ac asedau'n gyffredinol, yn eang ac maent yn effeithio ar ystod yr un mor eang o fuddiannau Llywodraeth Cymru. Er

enghraifft:-

- mae Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth wedi cyhoeddi Trosglwyddo Asedau Cymunedol yng Nghymru – Canllawiau Arferion Gorau’ i gynorthwyo cymunedau pan fyddant yn awyddus i asedau gael eu trosglwyddo;
- mae’r Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth wedi paratoi ‘Pecyn Cymorth ar gyfer Trosglwyddo Asedau Cymunedol’ yn benodol ar gyfer y sector cyfleusterau chwaraeon a hamdden ar adeg pan fo’r pwysau ar gyllidebau’r awdurdodau lleol yn effeithio ar wasanaethau hamdden yn benodol;
- mae’r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi wedi lansio dogfen ymgynghori ar ddarpariaethau yn ymwneud ag Asedau o Werth Cymunedol yng Nghymru;
- mae’r Gronfa Loteri Fawr wedi cyhoeddi ail Gronfa Trosglwyddo Asedau Cymunedol.

Hefyd, cafodd Gweithgor Llywodraeth Cymru ar Asedau Cymunedol ei sefydlu i sicrhau bod modd cydweithio’n well ar draws meysydd portffolio’r Gweinidogion. Bydd y Gweithgor hwn yn ceisio datblygu dulliau gweithredu a negeseuon cyffredin o ran asedau a darparu gwybodaeth a chynghor cadarn sy’n gysylltiedig â nifer o feysydd blaenoriaeth y Gweinidogion. Yn y lle cyntaf, un o brif flaenoriaethau’r Gweithgor fydd adolygu’r materion sy’n dod i’r amlwg o’r ymgynghoriad ar Ddiwygio Llywodraeth Leol ac Asedau o Werth Cymunedol, ynghyd â’r rheini a godwyd yn adroddiad y Comisiwn. Cytunwyd y bydd y Gweithgor:

- Yn darparu diweddariadau amserol am ddatblygiadau o ran polisiâu, canllawiau ac arferion sy’n gysylltiedig ag asedau cymunedol ar draws meysydd portffolio’r Gweinidogion;
- Yn gwneud argymhellion ynghylch datblygiadau o ran polisiâu ac arferion;
- Yn asesu adnoddau, rhwystrau a risgiau i sicrhau bod modd trosglwyddo asedau;
- Yn datblygu dulliau cyffredin o weithio a negeseuon cyffredin.

Gall y gwaith o ddatblygu cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol elwa’n sylweddol ar brofiad uniongyrchol mentrau cymdeithasol sydd eisoes wedi mynd i’r afael â materion tebyg o ran asedau. Yn y dyfodol, bydd yn bwysig manteisio ar brofiad o’r fath a sicrhau bod modd defnyddio gwybodaeth ac arbenigedd o’r fath – er enghraifft o fewn mudiad yr Ymddiriedolaethau Datblygu yng Nghymru sy’n ceisio defnyddio profiad ei aelodau mewn ffordd strwythuredig.

Mae’r sector yn meddu ar arbenigedd a phrofiad helaeth yn y maes hwn ac mae’r Comisiwn yn nodi y bydd yn bwysig manteisio ar yr wybodaeth sydd ganddo.

#### 4.5. Caffael

Roedd yr argymhellion yn cyfeirio at yr angen i ddatblygu gwybodaeth arbenigol am gaffael cydweithredol a’i phrif ffrydio; sicrhau bod cyfeiriadau penodol at gwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol yn cael eu cynnwys yn yr holl ganllawiau caffael; ymdrechu’n ‘ddiwyd’ i roi rheolau caffael diwygiedig yr Undeb Ewropeaidd<sup>3</sup> ar waith er budd cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol; a sefydlu prosiect peilot i ddangos potensial caffael cyhoeddus ar sail ardal.

---

3 Cyfarwydddeb Gaffael yr Undeb Ewropeaidd 2014/24/EU Rheoliadau 74-77

Cafodd Grŵp Llywio ei sefydlu ar ôl i Gwerth Cymru, ar y cyd â Chanolfan Cydweithredol Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, baratoi Canllaw Ceisiadau ar y Cyd. Mae aelodaeth y grŵp yn cwmpasu ystod eang o brynwyr a chyflenwyr. Mae'n goruchwyllo'r wyth prosiect arddangos sy'n cael eu rhoi ar waith ac mae'n sicrhau bod gwersi'n cael eu cofnodi'n effeithiol a'u rhannu. Cafodd y rhan fwyaf o'r prosiectau arddangos eu cwblhau ganol 2015 ac mae cynllun gweithredu wedi'i baratoi i sicrhau bod modd ymgysylltu'n ysturlon ar draws cymunedau'r prynwyr a'r cyflenwyr i sicrhau bod cynifer o bobl â phosibl yn deall y broses a'r dull o wneud Ceisiadau ar y Cyd. Mae prosiect Olyniaeth Busnes a Chonsortia Canolfan Cydweithredol Cymru yn meddu ar brofiad sylweddol o waith consortia cydweithredol ym maes caffael. Mae gwasanaeth newydd Busnes Cymdeithasol Cymru wedi olynu'r prosiect hwnnw. Hefyd, cafodd llenyddiaeth farchnata ei pharatoi ac mae cyrsiau hyfforddi bellach ar gael. Mae tudalennau gwe pwrpasol yn cynnwys dolenni at yr holl ganllawiau perthnasol, gan gynnwys dolenni at wefan Busnes Cymru a Busnes Cymdeithasol Cymru lle mae rhagor o gymorth ar gael.

I sicrhau bod yr holl bartneriaid allweddol yn ymgysylltu ac yn ymrwymo'n llwyr, mae swyddogion ar draws Llywodraeth Cymru'n ffurfio grŵp i fanteisio ar ddarpariaethau newydd rheolau caffael yr UE a ddiwygiwyd yn ddiweddar. Mae'r rheoliadau newydd yn caniatáu ymgysylltiad cynnar â'r farchnad, ac felly bydd yn hanfodol cychwyn trafodaethau â'r sector cydweithredol a chydfuddiannol a chyrrff arbenigol eraill cyn dechrau ar y drefn gaffael ffurfiol. Bydd hyn yn arbennig o berthnasol mewn achosion lle bydd angen cyflwyno ceisiadau ar y cyd neu geisiadau gan gonsortia i sicrhau bod modd i'r sector fanteisio ar y cyfleoedd mwy. Un o brif amcanion y cynllun gweithredu Ceisiadau ar y Cyd fydd hybu'r arferion hyn, gan sicrhau bod prynwyr yn ymgysylltu'n gynnar â'r farchnad a bod cyflenwyr yn defnyddio dulliau cydweithredol a dulliau consortia.

Cafodd Datganiad Polisi Caffael Cymru ei ddiweddarau yn ystod haf 2015. Mae'n diffinio caffael a gwerth am arian yng Nghymru mewn termau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ac felly mae'n ofynnol i benderfyniadau prynu daro cydbwysedd rhwng y materion hyn ac amcanion arbed costau ac arbedion effeithlonrwydd.

Daeth Cyfarwyddeb Gaffael newydd yr Undeb Ewropeaidd (2014/24/EU) i rym yn y DU ar 26 Chwefror 2015. Mae'r Gyfarwyddeb yn cyflwyno trefn gaffael 'ysgafn' (Rheoliadau 74-77) a allai gefnogi'r camau i ddatblygu cwmnïau cydweithredol, cwmnïau cydfuddiannol a mentrau cymdeithasol – gan gynnwys neilltuo rhai contractau tair blynedd cychwynnol i alluogi cwmnïau cydfuddiannol i feithrin eu harbenigedd a'u gallu masnachol (ond dim ond mewn rhai sectorau, gan gynnwys addysg, gofal iechyd, tai, gwasanaethau gwaith cymdeithasol, gwasanaethau llyfrgelloedd a gwasanaethau diwylliannol eraill).

Pan fydd cyrff cyhoeddus yn aildendro contractau gwasanaeth, nid yw'r rheoliadau presennol sy'n rheoli caffael cyhoeddus yn caniatáu iddynt roi ffafriaeth i gwmnïau cydfuddiannol gweithwyr / cwsmeriaid. Fodd bynnag, bwriedir i'r darpariaethau neilltuo contractau o dan Erthygl 77 o reoliadau caffael newydd yr UE ddarparu cyfnod o hyd at dair blynedd i'r cwmnïau cydweithredol neu gydfuddiannol sy'n ennill y gystadleuaeth neilltuedig gychwynnol feithrin eu harbenigedd gweithredol a masnachol. Fel rhan o'r camau yn sgil cyhoeddi adroddiad Canolfan Cydweithredol Cymru a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru, "Busnesau Cymdeithasol yng Nghymru: Cyflwr y Sector", mae swyddogion Llywodraeth Cymru a Chanolfan Cydweithredol Cymru'n cydweithio i annog



yr holl fusnesau cymdeithasol a nodwyd fel rhan o'r adroddiad hwnnw i gofrestru ar y wefan. Bydd hyn yn sicrhau ei bod yn haws i brynwyr yn y sector cyhoeddus wybod beth y gall y sector ei gyflenwi a phwy sy'n chwilio am gyfleoedd i gyflenwi i'r sector cyhoeddus.

Mae diffiniad 'Busnesau a Gynorthwyr', sef un o'r opsiynau ar gyfer cyflenwyr sy'n cofrestru ar wefan *GwerthwchiGymru*, wedi newid. Er bod *GwerthwchiGymru* yn diffinio Busnesau a Gynorthwyr fel y rheini lle mae o leiaf 50% o'r gweithwyr yn anabl ar hyn o bryd, mae'r Rheoliadau Contractau Cyhoeddus newydd bellach yn eu diffinio fel busnesau lle mae o leiaf 30% o'r gweithwyr yn dod o grwpiau 'dan anfantais'. Mae'r diffiniadau o "Weithwyr Anabl" a "Gweithwyr dan Anfantais" yn dod o Erthygl 2 o Reoliad y Comisiwn (EU) 651/2014 a gyhoeddwyd ar 17 Mehefin 2014.

Yng Nghymru, rydym wedi ychwanegu 'gweithiwr dan anfantais ddifrifol' at ein polisi Budd Cymunedol. Mae hwn yn dod o Erthyglau 2.18 i 2.20 o Reoliad (EC) 800/20083. Dylai fod yn ddefnyddiol i gyrff cyhoeddus sydd am dargedu cyfleoedd hyfforddi neu recriwtio os yw hon yn nodwedd o'u hardal.

'Gweithiwr dan anfantais ddifrifol' yw unrhyw unigolyn:

"a) sydd wedi bod yn ddi-waith ers 24 mis neu fwy."

O droi at yr argymhelliad penodol ynghylch prosiect peilot, cafodd cynllun amlinellol ei baratoi i ofyn am gyngor gan academyddion sy'n gweithio ym maes mentrau cymdeithasol a chaffael ac i gydweithio â'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol i bwysu a mesur y posibilrwydd o ddatblygu model ar gyfer Cymru gyfan. Bydd Gwerth Cymru'n manteisio ar arbenigedd yr Academi Arfer Gorau Caffael a'i Fforwm Caffael Creadigol gyda chymorth prosiect Doniau Cymru sy'n cael ei ariannu gan Gronfa Strwythurol Ewrop.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cynnwys dyletswydd i hyrwyddo gwasanaethau a ddarperir gan sefydliadau sy'n seiliedig ar egwyddorion cydweithredol a chydfuddiannol. Bydd angen monitro'r ddarpariaeth hon yn y Ddeddf.

#### 4.6. Gwybodaeth ac arloesi

---

Roedd yr argymhellion yn cyfeirio at sicrhau bod cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol yn cael eu hystyried yn llawn yn y camau i roi ar waith Strategaeth Arloesi Cymru, a baratowyd gan Lywodraeth Cymru. Roeddent hefyd yn nodi'r angen i sicrhau bod y gallu i arloesi'n rhan annatod o'r cymorth arbenigol ar gyfer y sector cydweithredol a chydfuddiannol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn cydweithio â Chanolfan Cydweithredol Cymru, Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru a Chwmnïau Cymdeithasol Cymru i bwysu a mesur ffyrdd y gall sefydliadau'r trydydd sector gymryd rhan lawn mewn ymyriadau i gefnogi arloesi. Hefyd, mae swyddogion datblygu busnes wedi cael canllawiau a nodiadau briffio penodol ynghylch Eiddo Deallusol. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi cyfleoedd i bennu anghenion penodol cwmnïau cydfuddiannol o ran cymorth i arloesi ac, os ydynt yn gydnaws â'r gofynion ariannu, i roi camau penodol ar waith. Mae rhagor o wybodaeth hefyd ar gael ar wefan Busnes Cymdeithasol Cymru.

## 4.7. Rhwydweithiau ac eiriolaeth

---

Roedd yr argymhellion yn cyfeirio at yr angen i'r sector cydweithredol a chydfuddiannol gydweithio i ddatblygu'r capasiti ar gyfer ymchwil, strategaeth a pholisi o ran tyfu'r economi gydfuddiannol, creu 'fforwm arweinwyr', a hwyluso gwaith rhwydweithio a chodi ymwybyddiaeth. Hefyd, roedd y Comisiwn yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod yr angen i ystyried modelau cydweithredol a chydfuddiannol yn cael ei gynnwys mewn deddfwriaeth a chanllawiau.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i gefnogi camau i ddatblygu "Cynghair Cwmnïau Cydfuddiannol". Mae sefydliadau cydweithredol a chydfuddiannol blaenllaw wedi bod yn rhan o'r trafodaethau am ei chylch gwaith. Bydd Canolfan Cydweithredol Cymru'n lletya'r "Gynghair Cwmnïau Cydfuddiannol" newydd ac yn hwyluso gwaith mewn meysydd sy'n gysylltiedig ag ymchwil, llunio polisiau, arwain y sector, rhwydweithio a chodi ymwybyddiaeth rhanddeiliaid allweddol, y cyhoedd a'r Llywodraeth o gwmnïau cydfuddiannol a'u manteision.

Bydd Llywodraeth Cymru'n darparu sedd i gynrychiolydd Busnes Cymdeithasol Cymru ar Fwrdd Gweithrediadau newydd Busnes Cymru.

Hefyd, gofynnwyd i'r sector busnes cymdeithasol ehangach gyflwyno ceisiadau ar gyfer sedd ar Fwrdd Strategol Busnes Cymru.

## 4.8. Cyflawni a meincnodau

---

Roedd yr argymhelliad yn cyfeirio at yr angen i wneud rhagor o waith i ddatblygu meincnodau fel rhan o swyddogaeth ehangach sy'n ymwneud â gwybodaeth.

Bu i Lywodraeth Cymru ariannu Canolfan Cydweithredol Cymru i gyflawni ymarfer i fapio sector mentrau cymdeithasol / cwmnïau cydweithredol Cymru. Cyhoeddwyd yr adroddiad, 'Busnesau Cymdeithasol yng Nghymru: Cyflwr y Sector' ym mis Mehefin 2015. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at sector mentrau cymdeithasol cryf Cymru sy'n cyfrannu oddeutu £1.7 biliwn i'r economi genedlaethol ac sy'n cyflogi oddeutu 38,000 o bobl. Mae hefyd yn nodi bod busnesau cymdeithasol yn gweithredu mewn amryw o sectorau gan gynnwys diwylliant a hamdden, addysg, yr amgylchedd ac iechyd, a bod busnesau iau'n fwy tebygol na busnesau mwy aeddfed o weithredu yn y sector amgylcheddol a'r diwydiannau creadigol. Disgwylir i Ganolfan Cydweithredol Cymru ailadrodd yr ymarfer hwn bob dwy flynedd i adeiladu ar yr wybodaeth sylfaenol a gasglwyd.

O ran lefelau ymwybyddiaeth, mae'r ymchwil i agweddau a gomisiynwyd gan Ganolfan Cydweithredol Cymru hefyd yn darparu meincnod a fydd yn sicrhau bod modd olrhain newidiadau dros gyfnod. Bydd y ddwy linell sylfaen yn gosod sylfaen gadarn ar gyfer pennu targedau cyffredinol y bydd modd ailedrych arnynt ar adegau priodol yn y dyfodol.

## 5. Gweithgareddau eraill gan Lywodraeth Cymru

---

Roedd ymateb Llywodraeth Cymru i gais y Comisiwn am wybodaeth am y camau a gymerwyd i roi ei argymhellion ar waith ar gyfer yr adolygiad hwn hefyd yn cynnwys gwybodaeth am weithgareddau eraill, gan gynnwys:

- **Trafnidiaeth** – yn enwedig i'r graddau y mae'n berthnasol i fasnachfaint rheilffyrdd Cymru a'r Gororau (roedd adroddiad y Comisiwn hefyd yn nodi pwysigrwydd trafndiaeth gymunedol). Mae Llywodraeth Cymru ac Adran Drafndiaeth Llywodraeth y DU wedi dod i ddealltwriaeth y bydd y cyfrifoldeb dros fasnachfaint y rheilffyrdd yn trosglwyddo i Weinidogion Cymru erbyn mis Ionawr 2017 (yn ddibynnol ar ewyllys Senedd y DU). Mae Llywodraeth Cymru'n disgwyl mai Gweinidogion Cymru fydd yr awdurdod a fydd yn dyfarnu masnachfaint rheilffyrdd nesaf Cymru a'r Gororau.

Bwriedir sefydlu cwmni di-ddifidend o dan berchnogaeth lwyr Llywodraeth Cymru a fydd yn gallu rheoli proses masnachfaint y rheilffyrdd yn sgil y Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau ar bwerau masnachfaint y rheilffyrdd. Bwriedir i'r cwmni hwnnw gynnal y broses o ddyfarnu masnachfaint rheilffyrdd Cymru a'r Gororau a rheoli cytundeb y fasnachfaint ar ôl iddi gael ei dyfarnu.

- **Iechyd a Gofal Cymdeithasol** – yn enwedig o ran Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r ddyletswydd ar gyrff cyhoeddus i hyrwyddo cwmnïau cydweithredol, cwmnïau cydfuddiannol a mentrau cymdeithasol fel modelau cyflenwi. Mae'r Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn bwriadu cefnogi'r broses hon nid yn unig drwy roi'r fframwaith deddfwriaethol ar waith ond hefyd drwy lunio cynllun gweithredu i reoli'r camau i roi'r prosiect ar waith; sefydlu grŵp llywio newydd i helpu i lywio'r prosiect ac i hybu perchnogaeth ac ymgysylltiad, yn ogystal â threfniadau llywodraethu ffurfiol; meithrin cysylltiadau â'r maes ymchwil; darparu cyllid i roi cymorth ymarferol i nifer bach o brosiectau dysgu enghreifftiol; codi ymwybyddiaeth mewn sawl ffordd fel rhan o weithgareddau cyfathrebu; a thrafod ag Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth a Gwerth Cymru i fanteisio ar eu harbenigedd a'u profiad ym maes busnes a chaffael. Y nod yw sicrhau rhywfaint o gydweithio o ran y cynllun gweithredu a chael cyngor ynghylch cynllunio, hyrwyddo a chyflwyno modelau gwasanaeth newydd.
- **Tai** – Mae'r sector wedi tyfu'n sylweddol nid dim ond o ran darparu tai ond hefyd o ran rheoli a datblygu gwasanaethau deillio o dan berchnogaeth gydfuddiannol. Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Grŵp Rhanddeiliaid Tai Cydweithredol sy'n cynnwys sefydliadau o'r sector tai a'r sector cydweithredol. Mae'r grŵp yn cwrdd yn rheolaidd ac mae'n goruchwyllo'r gwaith polisi a'r gweithgareddau hyn.

Ers 2012/13, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu arian refeniw i Ganolfan Cydweithredol Cymru er mwyn iddi letya Rheolwr y Prosiect Tai Cydweithredol a rheoli contract yn ôl y galw o ymgynghorwyr arbenigol i gynorthwyo prosiectau tai cydweithredol sy'n dod i'r amlwg yng Nghymru. Roedd wyth prosiect arloesi yn 2012. Erbyn hyn, mae 25 cynllun wedi datblygu i ryw raddau neu'i gilydd ac mae dros 530 awr o gymorth proffesiynol wedi'i ddarparu. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ariannu'r gwaith o ddatblygu tri phrosiect arloesi pilot ym maes tai cydweithredol i ddarparu tua 100 o dai cydweithredol. Caiff y tai cyntaf eu darparu erbyn haf 2015.

Gall Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig gael gafael ar gyllid o'r sector preifat yn ogystal â grantiau Llywodraeth Cymru. Mae nifer o brosiectau arloesi ar draws Cymru wedi datblygu cynlluniau gan ddefnyddio modelau buddsoddi amrywiol. Mae Cartrefi Cymoedd Merthyr yn enghraifft dda, lle mae'r cwmni cydweithredol yn cael ei ariannu gan ddefnyddio benthyciadau darbodus yr awdurdodau lleol ac asedau a drosglwyddwyd gan Gartrefi Cymoedd Merthyr. Drwy wneud hynny, bu modd adnewyddu nifer o fflatiau a bydd aelodau'r cwmni cydweithredol yn byw yn y cartrefi pan fydd y gwaith wedi'i gwblhau.

- **Cyfoeth naturiol** – Mae nifer o feysydd gwaith Adran Cyfoeth Naturiol Llywodraeth Cymru o fudd uniongyrchol i sefydliadau cydfuddiannol neu gydweithredol, neu sefydliadau sy'n gweithio'n unol â'r egwyddorion hynny. Caffael yw un o'r meysydd hynny a'r nod yw sicrhau'r budd cymdeithasol ac amgylcheddol mwyaf a rhoi cyfle i fentrau cymdeithasol gymryd rhan, gan gynnwys, er enghraifft, y cynlluniau Arbed a Chymru Effeithlon. Mae cynllun Cymru Effeithlon yn cael ei roi ar waith ledled Cymru gan gonsortiw m o naw menter gymdeithasol.

Mae'r dull a ddefnyddir o ran ynni adnewyddadwy'n cydweddu'n agos â'r cyfle a ragwelwyd gan y Comisiwn, gyda'r nod o hybu datblygiadau sy'n briodol ar gyfer y cymunedau y maent wedi'u lleoli ynddynt ac sy'n dderbyniol iddynt, a chadw cymaint â phosibl o fudd y datblygiad hwnnw yn y gymuned leol. Cynllun sy'n cael ei ariannu gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a Llywodraeth Cymru yw Ynni'r Fro ac mae wedi cefnogi 106 o fentrau cymdeithasol a helpu i greu deuddeg menter newydd.

Rhaglen sy'n cael ei hariannu gan gyfrifon segur a'i goruchwylio gan y Gronfa Loteri Fawr yw Adfywio Cymru. Mae wedi darparu cyngor a chymorth proffesiynol i gymunedau ledled Cymru er mwyn iddynt sefydlu cwmnïau cydweithredol a mentrau cymdeithasol di-elw.

O ran y ddeddfwriaeth bresennol (Argymhelliad 24), bydd Bil Amgylchedd Llywodraeth Cymru'n rhoi fframwaith deddfwriaethol ar waith i reoli adnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy, gan gynnwys rhoi pwerau ehangach i Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn iddo gyflawni'i swyddogaethau mewn ffordd fwy arloesol.

Mae gwerthusiadau Llywodraeth Cymru'n awgrymu bod gan fentrau cymdeithasol rôl allweddol i'w chwarae o ran rhoi prosiectau ynni adnewyddadwy ar waith a bod angen creu strwythurau cyfreithiol priodol ar eu cyfer. Fodd bynnag, mae angen llawer o gymorth ar grwpiau cymunedol er mwyn iddynt ddatblygu sefydliadau o'r fath a meithrin y profiad angenrheidiol i weithredu'n effeithiol fel busnes. Oherwydd nad yw mentrau o'r fath yn dueddol o greu nifer sylweddol o swyddi, mae'n ymddangos na fydd llawer o gymorth ar gael i'w datblygu yn y dyfodol, a hynny oherwydd y bydd y prosiectau newydd a gefnogir gan arian Ewropeaidd yn dueddol o ganolbwyntio'n bennaf ar dwf a swyddi. Bydd gofynion Bil yr Amgylchedd (Cymru) – os caiff Gydsyniad Brenhinol yn 2016 – yn rhoi pwerau i Gyfoeth Naturiol Cymru dreialu dulliau arloesol o'r fath. Gellir dadlau'r achos dros ystyried a phrofi rôl cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol o ran rhoi'r dull Taliadau am Wasanaethau Ecosystemau ar waith naill ai fel cynrychiolwyr grŵp prynu cymunedol ar gyfer gwasanaethau ecosystemau neu fel gwerthwyr gwasanaethau ecosystemau.

## 6. Opsiynau i sicrhau bod yr argymhellion yn cael eu cyflawni a'u rhoi ar waith yn barhaus / yn y dyfodol

---

Mae'r modd y mae'r argymhellion yn cael eu rhoi ar waith yr un mor bwysig â'r camau sy'n cael eu cymryd. O roi rhannau o'r argymhellion unigol ar waith, bydd modd cyflawni rhai canlyniadau ond y cwestiwn pwysicaf o hyd, fodd bynnag, yw sut i gyflawni'r 'newid sylweddol' a ragwelir yn yr adroddiad.

Mae rôl Llywodraeth Cymru a sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus o ran cyflawni newid parhaus yn eithaf gwahanol i rôl y sector ei hun. Drwy ddeddfwriaeth, addysg a seilwaith ategol, gall y sector cyhoeddus ddarparu'r fframwaith polisi, y fframwaith deddfwriaethol a'r seilwaith i hybu diwylliant cydweithredol.

Drwy ddefnyddio dulliau comisiynu a chaffael, yn ogystal â chynllunio gwasanaethau'n fwy craff, cloi asedau a chloi gwasanaethau, gall y sector cyhoeddus sefydlu protocolau sy'n annog ac yn cynnal ethos cydweithredol.

Fodd bynnag, rhaid i fudiad cydweithredol a chydfuddiannol Cymru roi cig ar yr asgwrn a siapio bywydau gwaith unigolion o ddydd i ddydd. Mae angen i gwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol allweddol sy'n gwir gredu yn y ffordd gydfuddiannol a chydwethredol o wneud busnes gamu ymlaen a chyflawni'r newid sylweddol sydd ei angen. Mae hefyd angen i arweinwyr sefydliadau mawr llwyddiannus sy'n gweithredu yng Nghymru gamu ymlaen a datblygu a gweithredu Cysyniad Egwyddor Chwech, drwy rannu eu gwybodaeth a'u harbenigedd, er enghraifft drwy secondio staff i gwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol llai o faint a llai aeddfed yn ystod camau datblygu allweddol. Bydd gan y "Gynghrair Cwmnïau Cydfuddiannol" rôl allweddol i'w chwarae i gydgyssylltu gweithgarwch o'r tu mewn i'r sector.

Mae'r gwaith sy'n digwydd ochr yn ochr â'r gwaith hwn i bwysu a mesur y posibilrwydd o ddefnyddio modelau cydweithredol a chydfuddiannol fel rhan o'r agenda i drawsnewid gwasanaethau cyhoeddus yn tynnu sylw at sawl elfen sy'n adleisio uchelgeisiau'r Comisiwn ac sy'n bwysig o ran cyflawni'r uchelgeisiau hynny:

- Mae'n amlwg bod angen fframwaith i gefnogi'r gwaith o drawsnewid gwasanaethau cyhoeddus ac i sicrhau bod holl argymhellion adroddiad y Comisiwn yn cael eu rhoi ar waith mewn ffordd gynaliadwy. Bydd angen i'r fframwaith gynnwys cymorth busnes cyffredinol ac arbenigol ac adnoddau eraill i gyflawni'r trawsnewid; bydd angen rhannu arferion; a sicrhau bod polisiau'r Llywodraeth a chyfraniadau'r sector yn cael eu cynllunio a'u cyflawni.
- Cydnabyddir hefyd fod angen i unigolion a sefydliadau allweddol yn y sector ei hun gydweithio mewn ffordd gyson a chynyddol ragweithiol a datblygol; a bydd hefyd yn hollbwysig bod cysylltiadau'n cael eu meithrin ar draws adrannau Llywodraeth Cymru.
- Rhaid cydnabod yr holl fathau o gymorth a chynghor y bydd eu hangen hefyd. Er bod sawl agwedd eisoes yn ei lle, nid yw hyn yn wir am agweddau eraill. Er enghraifft, bydd angen llawer o gymorth penodol ar gyrff yn y sector cyhoeddus i sicrhau bod modd iddynt drosglwyddo i fodel cydfuddiannol o ddarparu gwasanaethau. Bydd angen cyflawni hyn ar fyrder, yn ogystal â mynd ati i feithrin gallu a chyfalaf cymdeithasol mewn cymunedau ac ymhlith darpar gyfranogwyr cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol. Felly, bydd yn bwysig pennu ffyrdd o deilwra/'plygu' rhaglenni i sicrhau bod ystod lawn o gymorth ar gael.



- Er y bydd rhai agweddau ar ddeddfwriaeth yn sicrhau bod modd i gwmnïau cydweithredol, cwmnïau cydfuddiannol a mentrau cymdeithasol ddatblygu, er enghraifft Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, bydd hefyd angen sicrhau bod y systemau i gefnogi a monitro'r camau i'w rhoi ar waith yn cael eu sefydlu.
- I wneud cynnydd sylweddol mewn meysydd pwysig eraill, e.e. caffael, bydd hefyd yn bwysig cydnabod ei bod yn broses hirdrymor a fydd yn aml yn galw am newid ffordd o feddwl / 'diwylliant'. Dim ond drwy gymryd camau ymarferol gofalus sy'n dangos y manteision i bawb y bydd modd ei gyflawni.
- Bydd y ffordd y caiff arferion da eu nodi, eu didoli a'u rhannu'n bwysig i sbarduno a chyflawni'r 'newid sylweddol' y mae'r Comisiwn wedi galw amdano a thrawsnewid gwasanaethau cyhoeddus. Yn aml, mae'r elfen hon yn cael ei chymryd yn ganiataol, ond mae angen darparu adnoddau penodol ar ei chyfer, cydnabod cyfrifoldebau'n glir a chyflwyno dulliau byw ac ymarferol o hybu a rhannu arferion da. Mae hefyd yn cyffwrdd ag elfen bwysig cydweithredu o ran y ffordd y mae cwmnïau cydweithredol yn cefnogi eraill pan fyddant yn datblygu (sef Egwyddor 6 – Cydweithredu ymhlith mentrau cydweithredol). Yn amlwg, mae gan sefydliadau sy'n gysylltiedig â'r sector rôl bwysig i'w chwarae o ran arwain y gwaith o ddefnyddio arferion da a 'mentora' i sicrhau'r gwerth mwyaf.

Mae'r cysylltiadau rhwng y Comisiwn a'r adolygiad diweddar o'r ffordd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu darparu – "Ai Cydfuddiannaeth yw'r Ffordd Ymlaen? Ffyrdd Newydd o Gynllunio a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru" – yn amlwg. Bydd angen i gam nesaf y broses o roi'r ddau adroddiad ar waith gydnabod bod angen cydgynllunio rhai agweddau, er enghraifft o ran maint yr uchelgais gyffredinol a'r fframwaith cyflawni, yn ogystal â meysydd penodol fel caffael a chyngor a chymorth. Cafodd cynllun gweithredu ei lunio i fynd i'r afael â'r posibilrwydd o ddefnyddio modelau cydweithredol a chydfuddiannol i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus ac mae'n destun ymgynghoriad ar hyn o bryd.

Mae rhai agweddau ar y ddwy agenda'n wahanol, er enghraifft cyd-destun ehangach y newidiadau i'r gwasanaethau cyhoeddus ar y naill law ac elfennau hollol fasnachol datblygiad cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol ar y llaw arall.

Yn adroddiad y Comisiwn, pwysleisiwyd rôl Llywodraeth Cymru, cyrff cyhoeddus eraill, cwmnïau cydweithredol, cwmnïau cydfuddiannol a sefydliadau cysylltiedig (y cyfeirir atynt fel 'y sector') o ran sicrhau bod yr argymhellion yn cael eu rhoi ar waith.

Yn yr un modd ag adroddiad y Comisiwn, mae'r adroddiad "Ai Cydfuddiannaeth yw'r Ffordd Ymlaen?" yn cydnabod bod angen fframwaith pontio sy'n cynnwys y sector. Y nod yw gosod sylfaen go iawn i gynyddu rôl ac ymgysylltiad y sector yn sylweddol, o fewn "Cynghrair Cwmnïau Cydfuddiannol", a symud yr agenda yn ei blaen i'r graddau a amlinellir yn adroddiad y Comisiwn. Yn yr Atodiad i'r adroddiad "Ai Cydfuddiannaeth yw'r Ffordd Ymlaen?" gofynnir dau gwestiwn penodol a cheir atebion posibl. Mae "Sut y gellir diwallu anghenion cefnogaeth a datblygu modelau darparu amgen?" a "Sut y gallwn drawsnewid y ffordd rydym yn rhannu arfer da mewn perthynas â modelau darparu amgen?" yn rhagweld rôl ar gyfer y Gynghrair Cwmnïau Cydfuddiannol.

O barhau i roi argymhellion adroddiad y Comisiwn ar waith ac o ddatblygu modelau amgen i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, mae'r Comisiwn yn credu y bydd Cymru'n camu ymlaen tuag at gyflawni ei nod o fod yn "genedl gydweithredol".

## 7. Casgliad

---

Casgliad cyffredinol yr adolygiad hwn yw bod cynnydd sylweddol wedi ei wneud i roi llawer o argymhellion ein hadroddiad ar waith yn ystod y flwyddyn ers ei gyhoeddi. Mae rhai o'r prosesau cynllunio mwy hirdymor sy'n gysylltiedig ag argymhellion yr adroddiad, er enghraifft y rheini sy'n gysylltiedig â gweithredu deddfwriaeth neu strategaethau newydd, yn dechrau ymgorffori materion sy'n gysylltiedig â modelau cydweithredol a chydfuddiannol. Mae Gweinidogion Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddatblygu potensial modelau cydweithredol a chydfuddiannol yng Nghymru. Hoffai'r Comisiwn weld ymrwymiad lefel uchel a hirdymor parhaus o du Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru (trawsbleidiol) i sicrhau na fydd unrhyw newidiadau gwleidyddol byrdymor yn effeithio'n andwyol ar y flaenoriaeth a roddwyd i'r agenda. Hefyd, mae angen sicrhau bod cysylltiadau eglur rhwng yr agenda hon a blaenoriaethau trosfwaol Llywodraeth Cymru a'r meysydd gweithredol i sicrhau cydberchnogaeth ohoni ac i bennu sut y bydd y camau gweithredu'n cyflawni'r blaenoriaethau a'r canlyniadau cyffredinol a swyddogaethol.

Er gwaethaf canfyddiad cychwynol y gallai'r sector cydweithredol a chydfuddiannol ei hun wneud mwy i ymateb i'r heriau a nodwyd gan y Comisiwn, rydym yn falch o weld arwyddion clir fod rhai o unigolion a sefydliadau allweddol y sector bellach yn mynd ati ar y cyd i ysgwyddo mwy a mwy o gyfrifoldeb dros ymyrraeth a chyflawni. Mae'r camau i sefydlu "Cynghrair Cwmnïau Cydfuddiannol" yn enghraifft amlwg. Fodd bynnag, nid yw'r ffactorau hyn, ar eu pennau eu hunain, yn debygol o gyflawni'r 'newid sylweddol' a amlinellir yn adroddiad y Comisiwn. Fel y dywedwyd eisoes, mae pob clwstwr o argymhellion yn adroddiad y Comisiwn a'r gweithgareddau sy'n gysylltiedig â nhw'n cydberthyn i'w gilydd ac yn ategu ei gilydd. Felly, i sicrhau bod y prosesau a'r camau gweithredu hynny'n sicrhau'r canlyniadau a'r buddion gorau posibl, bydd yn bwysig mynd ati dros y cyfnod sy'n dod i ystyried sut y caiff yr holl elfennau hirdymor a byrdymor eu cydblethu o fewn fframwaith datblygu a chyflawni cydlynus a systemig.

Mae'n ymddangos bod angen hybu mwy a mwy o ymgysylltiad a pherchnogaeth ar draws adrannau a swyddogaethau Llywodraeth Cymru er mwyn gwneud y gorau o botensial cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol i wireddu uchelgeisiau Llywodraeth Cymru, yn ogystal ag adeiladu ar y cyfleoedd sy'n dod i'r amlwg o'r newidiadau i'r gwasanaethau cyhoeddus. Mae Keith Edwards wedi ategu'r farn hon yn ei adroddiad, "Ai Cydfuddiannaeth yw'r Ffordd Ymlaen?", ac fe'i dangosir yn Neddff Gofal Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Bydd angen i'r sector feithrin ei gapasiti i gyfrannu at hybu gweledigaeth y Comisiwn yn llawn ac yn parhaus. Ond i wireddu'r weledigaeth hon, bydd yn hollbwysig bod Llywodraeth Cymru a'r sector yn parhau i gydweithio i gyflawni canlyniadau ymarferol a gweladwy wrth drawsnewid gwasanaethau cyhoeddus a datblygu economi Cymru. Dim ond drwy gydweithio a sicrhau bod gwerthoedd cydweithredol a chydfuddiannol yn ennill eu plwyf y bydd modd i Gymru ddod yn "genedl gydweithredol" yng ngwir ystyr y term.

